

ECO'R WYDDFA

Rhif 61

GORFFENNAF 1981

Pris 15c

AILGYCHWYN TRADDODIAD YM METHEL



Pwy ydyn nhw? Beth sy'n digwydd ym Methel? Trowch i dudalen 9 am y stori.

I GYHOEDDI CARNIFALAU'R FRO



Tablo — Cymeriadau 'Sboncyn'.



Tablo ar y thema Hwiangerddi Cymraeg.

Dyma blant Llanrug yn ein hatgoffa fod tymor y carnifalau wedi dod! Mae llun arall o garnifal cynta bro'r 'Eco' ar dudalen 16.

Edrychwn ymlaen i ddangos yn y rhifyn nesa peth o naws yr hwyl a'r miri yn y pentrefi eraill.

Cofiwch

nad oes rhifyn mis Awst o'r 'Eco'. Byddwn yn ôl gyda chwi ar 3 Medi. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i chwi ble bynnag y byddwch yn ystod gwyliau'r plant.

Hysbysebion

Manteisiodd mwy o bobl nag arfer i hysbysebu yn yr 'Eco' y tro hwn gan mai dyma'r cyfle olaf i wneud hynny cyn gwyliau'r haf. Ymddiheurwn os yw hyn yn amharu'n ormodol ar eich mwynhad o'i ddarllen.

LLANBERIS — TÎM TYMOR 1980-81



Dyma'n cyfle cyntaf yn yr 'Eco' i allu dangos llun tîm pêl-droed mwyaf llwyddiannus Cynghair Caernarfon a'r Cylch am y tymor a aeth heibio. Hwyl oedd pencampwyr y gynghrair. Cipiasant y cwpan Alves a'r cwpan Moorings yn ogystal â chynnal rownd derfynol cwpan Penrhyn. Dyma'r chwaraewyr:

Cefn: Iolo Evans, Iwan Evans, Peter Jones, Ifan Jones (hyfforddwr), Gwilym Williams, Richard Williams, Allan Parry, Geraint Rowlands, John Roberts. **Blaen:** Gwilym Williams, Raymond Harding, Gareth Jones, Gareth Williams, John Pritchard, Peter Evison, Keith Davies. Llongyfarchiadau hogia!

AIL-LENWI LLYN PERIS?



Mae'r gwaith o ail-lenwi llyn Peris wedi dechrau — a lefel y dŵr yn graddol godi bob dydd rwan. Bwriedir dechrau ar y gwaith o gynhyrchu trydan ddiwedd y flwyddyn hon.

Tynnwyd y llun uchod o ben castell Dolbadarn ar Fehefin 1af ychydig oriau ar ôl agor y dorau oedd yn dal dyfroedd afon Hwch yn ôl.

Dosbarthwyr Pentrefi

Ar dudalen 7 gwelir rhestr o brif ddosbarthwyr yr Eco ym mhob pentref. O'r rhifyn nesaf ymlaen ein bwriad yw cyhoeddi enwau'r dosbarthwyr yma ar ben colofnau eu pentrefi.

ECO'R WYDDFA

Rhif 61
GORFFENNAF 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside|Thomas, Bronly Nant, Pont-

rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Brynaglwyys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Frice, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220) 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
3 MEDI
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 26 AWST
os gwelwch yn dda.

Llythyrau

CRWYDRO LLWYBRAU YN ENNIN YMATEB



YR YNYS

At y Golygydd,

Dyma lun o'r 'Ynys' yn yr
amser pan oedd fy Nhaid a Nain
yn fyw. Mae'r ddau'n sefyll y tu
allan i'r 'Ynys'. Cafodd y llun ei
dynnu gan rhywrai o America.
Wrth ddarllen Crwydro Llwybrau
Plwyf Llanddeiniolen, cofiais am
y llun hwn.



Dyma lun o fy nhad, John
Lewis, mab yr Ynys,
Llanddeiniolen, a gydag ef mae
gwas y Parciau Rhos,
Llanddeiniolen. Carwn gael
gwybod gan unrhyw un faint
fusasai oed y llun hwn. Cefais i fy
magu yn yr Ynys a threuliais
amser difyr yn gweithio ar y
fferm a'r caeau yn y bywyd iach.

A oes modd cael gwybod
drwy'r 'Eco' faint sydd ers bu fy
nhaid a'm nain farw. Ni wnes
erioed feddwl gofyn i nhad.

Gyda diolch,
Olwen Jones (Mrs)

45 Stryd Llyn
Caernarfon

Annwyl Olygydd,

Yr wyf yn darllen yr 'Eco' yn
wastad, ac yn disgwyl amdano yn
eiddgar bob mis oherwydd ei fod
mor ddiddorol a difyr ac wedi ei
ysgrifennu gan arbenigwyr.

Cefais fy magu yn Carfan, plwyf
Llanddeiniolen, ac yr wyf bellach
yn 78 oed. Diddorol iawn oedd
darllen yr erthygl ar 'Crwydro
Llwybrau' Llanddeiniolen.
Dilynaf eich taith:

Roedd tafarn a gweithdy gof yn y
Gors Bach; hen ferch yn cadw'r
dafarn a dau hen lanc yn cadw'r

efail. Wedi iddynt ddarfod cadw'r
gwaith, gwelais olion y mwg ar ochr
y tŷ presennol. Roedd dau ddrws yn
mynd i'r efail fel drws beudy, a
drws mawr i fynd i'r lle pedoli
ceffylau.

Ymlaen i Eglwys
Llanddeiniolen. Fe'i sefydlwyd yn
581, ac yn y Gelli roedd yr hen
reithordy. Pan ddaeth Cromwell i'r
eglwys, maluriwyd y Beibl oddi
wrth ei gadwyn, y llusern ar ochr y
pulpud, y bedyddfaen a'r seti i gyd.
Aeth wedyn am y Rheithor i'r
Gelli, ond yr oedd hwnnw wedi
dianc i fyny'r grisiau o'r tu mewn i'r
hen simdde fawr ac achubwyd ei
fywyd.

Dilyn y ffordd am Ffynnon
Deiniolen: yr oedd pwll clai yn
ymyl y ffynnon, a byddai'r
clochydd yn nôl prwcedaid o glai
oddi yma ar gyfer y Sul. Roedd
parwb yn dod â'i gannwyll ei hun i
oleuo'r eglwys, a pharwb yn gafael
mewn lwmp o glai i'r roi ar y sêl a
gosod y gannwyll ynddo.

Yma mae hen gapel Rhyd Fawr.
Dywed William Hobley mai yn
1813 yr adeiladwyd Rhyd Fawr ac
iddo gau yn 1868. Brawd a chwaer
ddi-briod fu'n gofalu amdano ar
hyd yr amser.

Troi ar y chwith ac i fyny Lôn
bach Arwyr sy'n dod allan ger Cae
Hob. Mae traddodiad yn dweud
mai yn y fan hyn y byddai'r gog yn
canu gyntaf yn yr ardal, ac felly y
galwyd y lôn yn Lôn bach Gôg.

Oddi yma, troi am fy hen gartref
ac i Lôn bach Arwyr arall, yr un
rhwng Pentir a Charfan. Yr oedd
capel yma o'r enw Capel bach yr
Arwyr, ac y mae ei olion i'w gweld
o hyd yng nghae Ty'n Llwyn. Yn
nes at Carfan na'r capel mae Cae
Gwilio ac oddi tano, Y Talwrn. Y
gwyr traed oedd yn y fan hyn, a'r
marchogion yn Dinas Dinorwig, yr
hen gaer a berthynai i dywysogion
Gwynedd. Dywed traddodiad mai
yn y Carfan yr oedd y rhyfela, a'i
enw priodol yw Caer-faen. Yn
terfynu â'n Cae Pella ni yng
Ngarfan y mae cae ar fferm
Braich Riffri a elwir yn Gae
Hospital. Lle gwyllt ydyw, ac y
mae yno gerrig mawr.

Yr eiddoch yn gywir,
Idwal Jones.

Gwynant,
Parc Muriau,
Caernarfon.

Llawer o ddiolch i Mr Jones am ei
nodiadau diddorol. Tybed a oes gan
rywun fwy o eglurhad ar enwau'r
ddwy 'Lôn Bach'? 'Lôn bach Gog' yw
un ohonynt ar lafar, a 'Lôn bach
Arwyr' yw'r llall. Ond mae Mr Jones
yn awgrymu mai Lôn bach Gog yw
un ac mai Lôn bach yr Arwyr yw'r
llall. Beth yw'r eglurhad cywir tybed?

A beth am enwau diddorol y
gwahanol gaeau? Oes eglurhad ar y
rheini? - Gol.

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf air o
werthfawrogiad o 'Eco'r Wyddfa'
a'i gynnwys diddorol a graenus.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar
bob mis at ei dderbyn. Ni chlyw
neb siw na miw oddi wrthyf am
tuag awr tra byddaf yn ei ddarllen
pob llythyren!

Mwynheais yn arbennig yn
rhifyn mis Mai yr ysgrif ar
'Crwydro Llwybrau'. Mae'n un
ddiddorol a chlir. Bydd yn hyfryd
cael eu rhodio ym misoedd yr
haf.

Pob llwyddiant eto i'r dyfodol i
'Eco'r Wyddfa' a'i griw o
weithwyr gwirfoddol a di-flino.

Yn gywir,
Morfudd Eryri.

Gwyrfai,
Llangefni,
Ynys Môn.

FY MRO

Cyffelyb i Lanrug nid oes
Un lle drwy'r ddaear lydan
Mae yno lendid yn ystôr
Ac angor ym mhob ffwddan.
A beth sy'n well ar hwyr o haf
Na difyr rodio'i llwybrau'n braf.

Mae afon Seiont ar ei thaith
Yn dal i ganu'i chlodydd
Ac ym Mryn Bras mae castell clae
Fel caer yn gwylio'i dolydd.
Ac onid yn ei sancteidd ro
Mae 'ngheraint hoff yn huno dro?

Trigolion diddan sydd yn hon
Fu'n gweithio am eu ceiniog
Yn nhyllau'r chwarel ym mhob hin.
O'r croeso ar ei rhiniog
A welir bai o'i gwneud yn Ne
A minnau'n un o blant y lle?

Morfudd Eryri,
Llangefni.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon-3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

LLANRUG

BLODAU'R GRUG - Cynhaliwyd Clwb Blodau'r Grug ddydd Iau, Mehefin 11 dan lywyddiaeth yr Is-lywydd, Mr John Williams, Gwledfa.

Y gŵr gwadd oedd y Parch Marcus Robinson, Llanberis, a chafwyd anerchiad addysgiadol a diddorol iawn ganddo ar Hanes Tref Caernarfon o'i dechreuad hyd y presennol.

Dymunwyd adferiad buan i'r rhai sydd wedi mynd i'r ysbty, sef Mr G. Jones Evans, Bro Rhyddallt, Mr Bryn Jones, Y Fedwen, Mr Tommy Pritchard, 4 Hafan Elan.

Drwg gennym ddeall bod Mrs S.E. Thomas, Min y Rhos, wedi cael damwain a thorri ei braich.

Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs Tommy Jones, 6 Rhosrug ar ddathlu eu priodas aur.

Hefyd Mrs M. Ll. Williams ar gael cloc yn anrheg i ddathlu ei hanner can mlynedd o wasanaeth i'r Herald Gymraeg.

Rhodddwyd y te gan Mrs K.O. Owen, Mountain View; Mrs A. Bennet, Mountain View; Mrs E. Jones, Bod Ifor a Miss A.C. Jones, Glanllyn. Rhodddwyd y raffl gan Mrs M. Roberts, 2 Plastirion Terr., ac enillwyd hi gan Miss M. Evans, Y Fedwen. Bydd y trip, Gorffennaf 9, yn cychwyn 12.15pm o Tanycoed a 12.30pm o'r Llythyr, ac yna yn mynd ar hyd ffordd yr Orsaf i fyny, i Glyn Twrog, ac ar hyd y brif ffordd. Diolchwyd gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol a Mrs Inigo Jones a Mr Ivor Williams.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR - Nos Iau, Mehefin 4, cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gyda Mrs Nancy Roberts, Anedd Wen yn arwain. Anfonwyd cofion at y chwiorydd sydd yn wael gartref ac mewn ysbtyai. Cydymdeimlwyd â Mrs E. Howel, Bryn Elert ar golli ei phriod, Mr A. Howel. Diolchwyd i'r chwiorydd a anfonodd roddion mewn nwyddau ac arian er yn methu bod yn bresennol. Rhodddwyd y coffi gan Mrs Sharon Owen, Sharel, Mrs Mairwen Lloyd, Afallon, a Mrs Maureen Williams, Antmor. Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y tymor diolchodd y llywydd i bawb am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn, ac hefyd i'r ysgrifennydd, Mrs Beryl Thomas, Gerallt, a'r Trysorydd, Mrs Dorothy Jones, Tegerin. Bydd y tymor nesaf yn cychwyn ar Fedi 3.

BEDYDD - Prynhawn Sul, Mai 24 yng nghapel Tanycoed, a'r gweinidog y Parch W.O. Roberts yn gweinyddu, bedyddiwyd Siôn Arfon, mab bychan Mr a Mrs Marcus Stokes, ac ŵyr Mr a Mrs Eric Morris, Awelfryn, Tanycoed.

Prynhawn Sul, Mehefin 7 a'r Parch W.O. Roberts yn gweinyddu eto, gyda Miss Megan Humphreys yn cynrychioli Eglwys Tanycoed, bedyddiwyd Steven Prys, mab bychan Mr a Mrs W.J. Williams, Pryscol yn ei gartref.

LLWYDDIANT - Nos Sul, Mehefin 21 cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i'r plant, gyda Mr T.H. Jones (Llanberis), dirprwy brifathro Ysgol Gynradd Llanrug, yn rhoi anerchiad, cyn cyflwyno llyfrau i'r plant fu yn llwyddiannus yn Arholiadau'r Ysgol Sul. Y rhai a wobrwyyd oedd: Steven Lloyd Jones, Catrin a Dyfed Whiteside Thomas, Rhodri a Gwion ap Llwyd, lolo a Ieuan Griffith, Rhian a Sian Lloyd, Meinir Williams, Martin Reed Davies, Ian, Dianne, a Sharon Thomas, Jean Roberts a Susan Mc Nall. Maent i'w llongyfarch.

LLONGYFARCHIADAU - I Mr Bryn Williams, BA, Tanygaer gynt, ar ei lwyddiant yn ennill gradd BD yng Ngholeg Diwynyddol Aberystwyth. Mae Bryn wedi derbyn galwad i

fugeilio eglwys cylich Bryn Du ac Aberffraw ar ôl cwblhau cwrs bugeiliol o flwyddyn yn Aberystwyth.

Hefyd i Miss Mayda Jones, wyres Mrs Morgan Jones, Bronallt, Pontrhythallt, ar ei llwyddiant yn ei harholiadau gradd Ll B, yng ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.

DYMUNIR ADFERIAD IECHYD - I Mr G. Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt, sydd yn yr ysbty ym Mangor.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Cyfarfu Pwyllgor o'r Gymdeithas Undebol yn ystod y mis i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf. Swyddogion eleni yw: Llywydd, Y Parch W.O. Roberts; Trysorydd, Mrs J. Llewelyn Williams, Bod Fair; Ysgrifennydd, Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar.

PRIODAS AUR - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs T.W. Jones, 6 Rhos Rug ar ddathlu eu priodas aur, Mehefin 7.

GWELLHAD BUAN - Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Bessie P. Owen, Crug, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbty ym Mangor.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL PONTRHYTHALLT - Pnawn Iau, Mai 28 cyfarfu'r uchod o dan lywyddiaeth Mrs Nesta Pritchard, Glanfa, pryd y cafwyd hanes diddorol gan Mrs N. Owen, Treigle, o'i hymwelriad ag Awstralia.

Cymerwyd y rhan arweiniol gan Mrs W.O. Roberts, Anedd Wen. Anfonwyd ein cofion at aelodau oedd yn wael gartref ac mewn ysbtyai.

Rhodddwyd y te gan Mrs M. Ll. Williams, Llys Awen a Miss Buddug Williams, Glan Padarn.

Pnawn Iau, Mehefin 18, cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Gymdeithas. Llywyddwyd gan Mrs Nesta Pritchard, Glanfa, a chymerwyd y rhan arweiniol hefyd gan Mrs Pritchard. Rhodddwyd y te gan Mrs Williams, Llys Meirion a Mrs Owen, Treigle.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs O.C. Roberts, Elidir View, ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs S.J. Roberts (gynt o Ship Cottage). Anfonwyd y rhoddion, sef y swm o £154 er cof amdani i Gymorth Cristnogol.

Y SEINDORF - Ar Fai 23, 'roedd y Seindorf yn bresennol yng Ngheir Caernarfon pan agorwyd Yr Amgueddfa Forol, Seiont II.

Ym Mhwlheli ar Fai 25 'roedd y carnifal cyntaf i'r Seindorf a 'roeddent ar flaen yr orymdaith drwy'r dref.

Cafwyd diwrnod difyr iawn gan aelodau'r Seindorf ar Fehefin 13, sef diwrnod y gystadleuaeth flynyddol Unawd a Phedwarawd a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gynradd. Y beirniad oedd Mr John Duckett o Wrecsam; a chyflwynwyd y gystadleuaeth gan Mr F.E. Baylin. Y cyfeillyddion oedd Mrs Mair Huws a Mrs Carys Jones. Dechreuwyd am 12.30pm gyda'r dysgwyr. 'Roedd 14 ohonynt a'r cyntaf oedd Paul Hughes (cornet), 2. Euros Lyn Jones (trombôn), 3. Berwyn Owen (cornet).

Cyflwynwyd cwpan her i'r gystadleuaeth o dan 15 gan Mr a Mrs A. Parry, Bryn Heli er cof am y diweddar Mr John Parry. Enillwyd y gwpan gan Simon Roberts, gyda Gareth Ll. Jones yn ail a Kevin Richardson yn drydydd. O dan 19: 1. Gwyneth Jones, 2. Keith Jones, 3. Kevin Richardson. Unawd Agored: 1. Gareth W. Hughes, 2. James Jones, 3. O. Glyn Hughes. Deuawdau: 1. Gareth a Sharon Hughes (Mr a Mrs). Y pedwarawd: buddugol oedd yr un o dan arweiniad Mr John Tame - sef Glyn Hughes, Glyn Williams, Gareth W. Hughes a Joyce Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Carys Jones. Cafwyd



Yn y llun mae rhai o'r dysgwyr a'u hyfforddwyr gyda'r beirniad, Mr John Duckett a Mr F.E. Baylin (cyfarwyddwr cerddorol y Seindorf).

lluniaeth ar ddiwedd y prynhawn wedi ei ddarparu gan Bwyllgor Merched y Seindorf. I gloi digwyddiadau'r diwrnod trefnwyd Noson Gymdeithasol yng Ngwesty Gwynedd yn Llanberis.

Ar nos Sul, Mehefin 14, cymerwyd rhan gan y Seindorf yng Nghymanfa Ganu'r Carnifal yng Nghapel Pontrhythallt. Ar ddiwrnod y carnifal 'roeddent ar flaen yr orymdaith drwy'r pentref i'r Ysgol Gynradd. Y carnifal nesaf i'r Seindorf fydd Carnifal Penisarwaun ar nos Wener, Gorffennaf 3.

MERCHED Y WAWR - Nos Fawrth, Mehefin 8 aeth Adran Llanrug o Ferched y Wawr ar daith hanesyddol o sir Fôn. Arweinydd a threfnydd y daith oedd Mrs Mary Vaughan Jones, y Waunfawr.

Ymwelwyd â Siambr Gladdu Lligwy, Capel Lligwy a Din Lligwy ac Eglwys Llanallgo. Ym mynwent Llanallgo mae cofadail i goffhau suddo'r Royal Charter ym 1859.

Ar ddiwedd noson ddiffr yng Ngwesty Glyn Lliffon, Marian Glas, diolchodd Llywydd y Gangen, Miss Phyllis Ellis i Mrs Mary Vaughan Jones am drefnu'r daith ac am ei sgysiau hanesyddol diddorol ar y daith.

Diolchodd Miss Ellis hefyd i ysgrifennydd y gangen, Mrs Eirlys Pierce; i Mrs Lovatt am wasanaethu wrth yr organ ac i Mr Mark Stokes, gyrrwr y bws.

CANOLFAN HAFAN ELAN - Mai 28 dan lywyddiaeth Mrs D. Jones, y gŵr gwadd oedd Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, a rhoddodd sgwrs a sleidiau ar ei ymweliad â gwlad Palesteina. Mwynhawyd y noson yn arw gan bawb. Mawr ddiolch i Mr Williams.



Alun Williams yng nghwmni pobl Hafan Elan.

CASGLIAD AT Y DEILLION LLANRUG A'R CYLCH

Dymuna Mrs Williams, 17 Bro Rhythallt, Llanrug ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gefnogodd y gronfa a defnwyd trwy Brydain Fawr er Budd y Deillion. Cerddodd dau ddyn dall gyda'u cŵn o Wallasey i Bolton

Prynhawn Llun, Mehefin 1, daeth Mr Alun Williams o'r BBC i'r ganolfan i recordio rhaglen 'Dewch am Dro'. Cymerwyd rhan gan y rhai canlynol, Mrs D. Jones (y warden), Mrs M.M. Williams, Rhyd; Mr G. Orritt, Rhif 10, Mrs D. Williams, Rhif 19, Mrs S.L. Jones, Rhif 22.

Cyn i Mr Alun Williams adael cafodd dynnu ei lun gyda rhai o drigolion y stad gan Miss M.J. Rowlands. Darlledir y rhaglen, Gorffennaf 14. Cofiwch wrando!

Mehefin 10, cynhaliwyd y bore coffi arferol sy'n cael ei drefnu gan y Warden, Mrs D. Jones. Rhodddwyd y raffl gan Mrs B. Morris, rhif 23, a'r enillydd oedd Mrs M.M. Williams, Rhyd.

Nos Fercher, Mehefin 10, cafwyd orig ddiffr o ganu gwerin yng nghwmni'r gŵr gwadd, sef Mr Idwal Roberts, Llanberis.

Croesawyd ef yn gynnes gan Mr C. Williams, Rhif 19 a thalwyd y diolchiadau iddo gan Mr G. Orritt, rhif 10; y ddau yn hen gyfeillion iddo.

Diolch hefyd i Mrs N. Williams, Rhif 6 am ei chyfraniad i'r noson.

Dymunwn ddiolch i Mrs E. Jones, Rhif 13, a Mrs N. Hughes, Rhif 24 am eu parodrwydd i'n cynorthwyo ar bob achlysur.

YN YR YSBYTY - Dymunwn wellhad buan i Mr T. Pritchard, Rhif 4 sydd yn derbyn triniaeth yn ysbty Gallt-y-Sil, Caernarfon.

SALWCH - Drwg gennym ddeall fod Mrs A. Griffiths, Rhif 3, sydd ar hyn o bryd yn aros yn nhŷ ei merch yng Nghaerfyrddin yn cwyno. Gobeithio y bydd yn holliach yn fuan.

O'R YSBYTY - Croeso adref i Mrs G. Roberts, Rhif 2 sydd wedi bod yn ysbty Môn ac Arfon, Bangor.

DEINIOLLEN

CARNIFAL – Gorffennaf 2-11 – Dydd lau, Gorffennaf 2 am 6.30 Pêl-droed 5 bob ochr ar y cae chwarae. Sadwrn, Gorffennaf 4, Beiciau Modur – Arddangosfa ar Gae Garnedd. Sul, Gorffennaf 5, am 8pm, Cyngerdd Cysegredig yng Nghapel Ebeneser. Llun, Gorffennaf 6 am 6.30pm – Pêl-droed 5 bob ochr. Mawrth am 6.30pm Disgo yn yr Uned Feithrin. Mercher, Gorffennaf 8 am 6.30pm. Disgo yn yr Uned Feithrin. Mercher, Gorffennaf 8 am 7pm (drysau'n agor am 6.30), Cyngerdd a seremoni Coroni yn Festri Ebeneser. Cyngerdd Coroni Brenhines y Carnifal a thalentau Ysgolion Sul, nos Fercher, Gorffennaf 8 yn Festri Ebeneser am 7.00 o'r gloch. **Dalier Sylw:** Mynediad drwy docyn yn unig oherwydd prinder seddi. lau, Gorffennaf 9 – Mabolgampau ar y cae chwarae. Gwener, Gorffennaf 10 – ffilmiau yn Ysgol Gwaun Gynfi. Dartiau yn Nhafarn y Bull am 8pm. Sadwrn, 11: Gorymdaith Carnifal o Rhydfadog am 1.00pm i'r Cae Chwarae. I agor y Carnifal – Cefin Roberts o'r rhaglen Ffalabalam. Beirniaid: Mr a Mrs Terry Wyn Jones, Mr a Mrs Griff Morris. Y ddau o Ddeiniolen gynt.

DIOLCH – Dymuna Eurwyn a Joyce Wyn Jones, 10 Porth Gogledd ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig tuag at Derwyn tra bu yn Ysbyty Môn ac Arfon, ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch am y llu cardiaid, anrhegion, ac arian a dderbyniodd. Diolch yn fawr i bawb. **PLAID CYMRU** – Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen ar nos Fercher, Mehefin 10 pryd y cafwyd adroddiad gan Mrs S. Skillicorn am Gynhadledd Arfon a gynhaliwyd ym Mhentrefelin ar Fehefin 6. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer Helfa Drysor, sydd i'w chynnal ym mis Gorffennaf. Enillwyr Clwb Cant mis Mai £15, rhif 135 Miss Awen Hughes, 26. £10. Rhif 33 Mrs Sally Lewis, 2 Tai Glyn.



Dyma ddarlun plentyn o'r ardal sydd yn fyw heddiw. Yn wir, mae ei rieni, hefyd, yn fyw. Mae'n aelod o'r Band ers rhai blynnyddoedd. Cafwyd y llun gan Mr John Maldwyn Jones, 14 Marian Terrace. Mae John yn fodlon rhoi £1 o wobr i bwy bynnag a all adnabod y llun erbyn y mis nesaf. Cynigion i Mr John Maldwyn Jones, os gwelwch yn dda.

PEN-BLWYDD HAPUS – Dymuna Mr a Mrs G. Jones, 6 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon ddymuno pen-blwydd hapus i'w efeilliaid Jacqueline ac Angela yn 25ain oed ar Fehefin 18. Pob dymuniad gorau i'r dyfodol oddi wrth Mam a Dad.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Ar nos Lun, Mehefin 1, cafwyd noson ddifur iawn yng nghwmni Mr Gwyl Hughes (cigydd wedi ymddeol) gyda Mrs Marian Williams (Cigydd Lleol), yn ei gynorthwyo. Dangoswyd sut i drin cig gan roi enwau'r gwahanol ddarnau, gyda ffyrdd o'i dorri, ac o'i goginio ac yn y blaen. Hefyd sut i gadwyno selsig (sosej). Cafwyd cryn hwyl gyda'r aelodau pan fu rhai ohonynt yn ddigon eofn i geisio ymgodymu â'r gwaith. Llongyfarchwyd Miss Moeller, Clwt-y-Bont ar gael ei dewis allan o lu o ymgeiswyr i archwilio papurau lefel

'O' a lefel 'A' dan nawdd Prifysgol Caergrawnt. Hefyd ar iddi ennill y wobwr gyntaf am gyfansoddi Barddoniaeth yn Saesneg ar Atgofion Plentyndod dan nawdd Ffederasiwn Sefydliad y Merched Gwynedd, yn eu cylchgrawn 'Yma a Thraw'. Rhoddwyd y wobwr siawns gan Mr Gwilym Hughes, a Mrs Marian Williams, sef darn o gig, a'r enillydd oedd Mrs Gwen Hughes, Gwyndy, Rhiwen. Rhoddwyd yr ail wobwr gan y gwesteion, sef Mrs Nancy Rowlands a Miss Kathleen Jones, a'r enillydd oedd Mrs Beryl Hughes. Diolchwyd i bawb am y noson gan y llywydd, Mrs Eirlys Williams, ac ategwyd gan Mrs Gwen Hughes. Croesewir aelodau, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn coginio i Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Gorffennaf 6 am 7 o'r gloch pryd y ceir Arddangosfa a gwers enghreifftiol gan gynrychiolwyr y B.A. Mix.

NEWYDDION Y SEINDORF – Llongyfarchion i'r Seindorf ar ennill y Wobwr Gyntaf yn Eisteddfod Môn. Cafwyd canmoliaeth uchel i'r Seindorf gan y beirniad, sef Mr A. Guy, Caerdydd. Cawsant 96 o farciau allan o 100. Bydd y Seindorf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth, sef Dosbarth D yn erbyn 9 o fandiau eraill a Dosbarth C yn erbyn 6 o fandiau. Dyma enillwyr Clwb 200 mis Mehefin: 1. £25 – Rhif 45, Mr M. Williams, Cyngor Sir. 2. £15, rhif 83, Mrs L.W. Jones, 3 Rhydfadog. 3. £5, rhif – M. Lloyd, 6 Hafod Olau.

CYMDEITHAS GODI PWYSAU PWER DINORWIG – Dydd Sadwrn, Mehefin 13 aeth pump aelod o'r Clwb i Gaerdydd i Gystadlu. Cychwynwyd fore Sadwrn o Ddeiniolen gyda char a chyrraeddwyd Caerdydd tua 4 o'r gloch. Drwy garedigrwydd dwy eneth o Lanrug sef Gwyneth ac Ann, genethod Hugh Thomas, Ponthryddallt, cawsant lety yn rhad ac am ddim ac mae'r bechgyn yn ddiolchgar dros ben am eu croeso. Ar ôl crwydro ychydig o Amgylch Caerdydd a noson o gwsg 'roedd y bechgyn yn edrych ymlaen am fore Sul. Aethant draw i'r Ganolfan Chwaraeon yn y Brifddinas lle y cynhaliwyd y cystadlaethau. Dyma'r canlyniadau: Bryn Jones, 3ydd yn Adran 52KG. Cyfanswm 262½Kg. Carwyn Thomas, 2il yn adran 56 KG. Cyfanswm 282½Kg. Martin Woods, 2il yn Adran 60KG. Cyfanswm 355Kg. Cemlyn Thomas, 3ydd yn Adran 67Kg. 340Kg.

Bu Len Jones, Fanwylen, Pensiarnau, arweinydd y clwb, braidd yn anlwcus yn methu cyrraedd y cyfanswm yn adran 67Kg (y rhai hyn). Ond 'roedd Len yn hapus iawn gyda chanlyniadau'r bechgyn. Carai'r bechgyn ddatgan eu diolch i Len am ei drafferth, ac am eu hyfforddi drwy'r tymor.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Mae Pwyllgor lleol y Gymdeithas yn Trefnu 'Barbeciw' i'w gynnal yng nghanolfan Dinorwig am 6.30pm, nos Wener, Gorffennaf 17. Pwrpas y barbeciw fydd hyrwyddo'r cysylltiad a sefydlwyd y llynedd rhwng Eglwysi'r Adran drwy'r Daith Gerdded/Encil Ddistaw.

Peidied neb â disgwyl saig o gig eidion yn y barbeciw, cynigir tamaid o gig mochyn ar ffurf *Sausage Roll* yn unig a phaned i'w olchi i lawr. Os na'ch digonnir ar hynny, byddwch yn sicr o'ch bodloni ar yr adloniant ysgafn gyfrennir gan ddoniau lleol yn ystod y noson. Er cyfarfod y costau gofynnir i blant dalu mynediad o 15 ceiniog ac oedolion 25 ceiniog. Cofiwch y dyddiad, ac os am noson hwyliog rhwch eich henw i ysgrifennydd eich eglwys.



Derbyniwyd llun o ddosbarth yn Ysgol Gwaun Gynfi gan Mrs L.M. Jones, Caeau Uchaf. Yn y darlun yn y rhes uchaf, trydydd o'r pen mae un o fechgyn yr ardal, sy'n Aelod Seneddol, sef Mr Gwilym Effrwd Roberts, oedd yn byw yn Terrace, Clwt-y-Bont. Mae yn awr yn A.S. yn Cannock. Hefyd yn eistedd yn y blaen, yr ail o'r chwith mae John Hughes, London House, Clwt-y-Bont gynt, arolygydd efo'r Heddlu yn awr, sydd wedi dod yn ôl i'r ardal i fyw, ac yn Brif Swyddog Diogelwch yng ngwaith Trydan Dinorwig. Dyma anrhydedd mawr i'r ardal.



Dyma lun gan Mr Ezra Williams, 13 Stryd Newydd a dynnwyd tua 1960 o flaen Festri Ebenezer a Phensynwyr Deiniolen a Chlwt-y-Bont i gyd wedi gweithio yn y rhan uchaf o Chwael Dinorwig. Mae Mr Williams yn meddwl mai un yn unig sydd yn fyw heddiw.



Dyma lun ddaeth i law oddi wrth Ronnie Williams (Llanbabo), Nuffield House, Barclay Street, Caerlŷr (Leicester), wedi cael ei dynnu ym Mhonc Mills yn y flwyddyn 1954.

LLONGYFARCHIADAU – I'r Frenhines Susan, Brenhines Deiniolen 1980 ar ddod yn gyntaf allan o ddeg o freninesau yng ngharnifal Glanogwen, Bethesda,

ddydd Sadwrn, Mehefin 20. Derbyniodd dlws hardd.

PEN-BLWYDD HAPUS – Dymuna Nancy a Bob, 12 Pentre Helen ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Anti Nelli, Erw Fair, a phob dymuniad gorau iddi am lawer blwyddyn eto, gyda llawer o ddiolch iddi am ei holl gymwynasau i ni yn y gorffennol.

MARW – Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth un o enethod yr ardal, sef Mrs Elisabeth Jane Franks (Lizzie Jane). Bu farw yn Ysbyty Penbedw (Birkenhead) ar Fai 14. 'Roedd ei hangladd ar Fai 19. Merch i'r diweddar Mr a Mrs Edward Williams, 50 Pentre Helen ydoedd. Daethpwyd â'i gweddillion i'w claddu gyda'i rheini ym mynwent Macpella ar Fehefin 5.

YSGOL FEITHRIN – Fel rhan o weithgareddau'r Wyl Feithrin Genedlaethol, cynhaliwyd Ocsiwn yn yr Ysgol Feithrin leol nos Fawrth, Mehefin 9. Agorwyd y noson gan y Cynghorydd Pat Larsen a chyflwynodd rodd anrhydeddus i'r cylch meithrin lleol. Yr ocsiwniar oedd Mr Dafydd Evans, Tai Gweledfa, a gwnaeth ei waith yn raenus a hwyliog. Cafwyd noson

CYMDEITHAS GYDWEITHREDOL DEINIOLLEN

Cefnogwch Siop Hynaf y Pentref!
Pob math o fwydydd, nwyddau a
dilladau am brisiau rhesymol, yn
cynnwys o leiaf bythefnos o gredyd.

Pedair wythnos o gredyd wrth brynu glo, ond
os telir o fewn pythefnos cynigir 2½c yn y £1 o
ddisgownt.

DEINIOLEN (Parhad)

ddifyr a gwnaethpwyd elw sylweddol a diolch i bawb a gefnogodd yr achos. Dydd Mercher, Mehefin 10 aeth y ddwy athrawes ynghyd â rhai o'r mamau, a'r plant i'r aelwyd yng Nghaernarfon, lle'r oedd Cwmni Theatr Bara Caws yn perfformio. Mwynhaodd y plant a'r rhai hyn eu hunain yn arw. Dydd Sadwrn, Mehefin 13 roedd picnic o gylchoedd Arfon i gyd yn Ysgol Segontium, Caernarfon. Er gwaetha'r tywydd, cafwyd pnawn arbennig o ddiddorol yn gwylio ffilmiau ac roedd Cefin Roberts o Ffalabalam yno yn difyrru'r plant. Nos Wener, yn ystod yr un wythnos aeth mamau'r Ysgol Feithrin ar daith ddirgel gan aros yng ngwesty'r Ferry, Tal-y-Cafn am gyw iâr a 'sglodion. Cafwyd noson ddifyr.



'NÔL I'R GORFFENNOL' — Dyma lun a gafwyd gan Mrs Beti Jones, Glandwr, Clwt-y-Bont wedi ei dynnu ers llawer o flynyddoedd. Hi yw y Babi yn y llun a'r wraig gyntaf agosaf at y dreifar yn sefyll gyda het wellt am ei phen yw Mrs Catrin Rhian Jones, Siop Newydd gynt. Buasai Mrs Jones yn dra diolchgar os oes rhywun yn adnabod y rhai yn y llun, ac ym mha flwyddyn y tynnwyd ef. Oes plant i rai yn fyw 'nawr a fedr ddweud rhywbeth wrthym amdano?

CYFARFOD BLYNYDDOL MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yng Ngwesty Plas Tan Dinas ar 15 Mai.

Mae'r Mudiad yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeg oed eleni ac fe gafwyd anerchiad diddorol iawn gan Mrs Mair Jenkins Jones, sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r Mudiad ers y cychwyn.

Yn ystod y cyfarfod, penodwyd swyddogion newydd i bwyllgor Rhanbarth Arfon, ac fe ffarweliwyd â Mrs Margaret Bowen Rees fel Swyddog Cyswllt dros Arfon. Diolchwyd iddi am ei gwaith caled yn ystod ei chyfnod gyda'r Mudiad ond fe fydd mae'n siŵr yn dal i gadw cysylltiad agos yn y dyfodol.

Mrs Ceinwen Davies yw'r Swyddog Cyswllt newydd. Mae hi'n adnabod yr ardal yn dda ac yn adnabyddus i bawb sy'n gweithio

I ddiweddu tymor yr haf, mae trip yn cael ei drefnu i Wersyll Butlins, Pwllheli, ar Orffennaf 2. Mae lle ar lyfrau'r Ysgol Feithrin i blant o 2½ oed i fyny at oed ysgol. Os oes rhywun â diddordeb mewn anfon eu plant y tymor nesaf cysyllter â'r ysgrifennydd, Mrs Gwen Griffiths, Fron. (Ffôn: Llanberis 858). Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd mewn arian neu nwyddau ac i bawb ddaeth i gefnogi.

DIOLCH — Dymuna Mrs Gloria Thomas, 35 Rhydfadog, ddiolch o galon i bawb yn yr ardal am eu rhoddion tuag at Gymdeithas Spina Bifida. Cynhaliwyd Arwerthiant yn Siop 29, Caernarfon a gwnaethpwyd elw o £2,016. Mae'r pwyllgor yn dra diolchgar am yr holl gefnogaeth a gawsant. Diolch i bawb.

DINORWIG

CYMDEITHAS FEIBLAU — Mae pwyllgor lleol y Gymdeithas yn trefnu Barbeciw, (o fod eisau gwell gair), i'w gynnal yng Nghanolfan Dinorwig, am 6.30pm., nos Wener, Gorffennaf 17. Pwrpas y 'Barbeciw' fydd hyrwyddo'r cysylltiad sefydlwyd y llynedd rhwng Eglwys i'r Adran drwy'r Daith Gerdded-Encil Ddistaw.

Peidied neb a disgwyl saig o gig eidion yn y 'Barbeciw'; cynigir tamaid o gig mochyn ar ffurf 'Sausage Roll' yn unig a phaned i'w olchi i lawr! Os na'ch digonnir ar hynny, byddwch yn sicr o'ch bodloni ar yr adloniant ysgafn gyfrennir gan ddoniau lleol yn ystod y noson. Er cyfarfod y costau gofynnir i blant dalu mynediad 15c ac oedolion 25c.

Cofiwch y dyddiad, ac am noson hwyliog, rhowch eich enw i Ysgrifennydd eich Eglwys.

CYFARFOD PREGETHU — Dydd Sul, Mehefin 7 cynhaliwyd Gŵyl Bregethu flynyddol y Sulgwyn yn Eglwys Sardis (B). Y Gennad gwadd oedd y Parch J. Elfed Davies, M.A., B.D., Caerdydd. Cafwyd pregethu o safon uchel gyda chynulleidfda dda yn y thri chyfarfod.

LLONGYFARCH — Llongyferchir Mr John E. Thomas, Bwlch y Gwynt, ar ei llwyddiant yn Sioe Caernarfon gyda'r cŵr 'Irish Settlers'. Daeth yn 2 a 3 yn ei ddosbarth.

Llongyferchir Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ei llwyddiant yn ei gwaith gydag arholiadau Coleg Technegol Bangor. Daeth yn drydedd yn y dosbarth. Mae'n astudio cwrs dwy flynedd ar 'Ofalaeth Plant'. Pob

llwyddiant yn y dyfodol.

DEWIS BLAENORIAID — Dydd Sul, Mehefin 14, dan arolygaeth y Parch Ronald W. Roberts, Deiniolen a Mr Gwilym W. Williams, Brynrefail dewiswyd Mr David Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian a Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian yn flaenoriaid yn eglwys Dinorwig M.C. Dymunir bob bendith a rhwyddineb iddynt yn y dyfodol.

Fe'u derbynnyr yn aelodau o Henaduriaeth Arfon yn eisteddiad o Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Uchaf Clynnog ar Orffennaf 1. Yn yr un Henaduriaeth telir gwrogaeth i Mr Owen R. Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig ar gwblhau ohono 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Eglwys Dinorwig.

CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL DINORWIG — Gwnaed trefniadau ar gyfer trip blynyddol y gymdeithas. Bydd hwn yn Drip Taith Ddirgel ar Sadwrn Gorffennaf 18. Tynnwyd allan raglen diddorol ar gyfer y gaeaf nesaf.

I'R YSBYTY — Aeth Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, i Ysbyty Môn ac Arfon, am archwiliad meddygol. Dymunir gwellhad buan iddo.

Ein cofion at rai sy'n cwyno yn yr ardal y dyddiau hyn a dymuniad am adferiad buan iddynt.

ENNILL B.Add. — Estynnir llongyfarchiadau cynnes i Mr John Eryl Roberts, 3 Maes Eilian ar ennill radd B.Add. gydag anrhydedd yng Ngholeg Caerfyrddin. Pob llwyddiant i'r dyfodol.



Plant Ysgol Sul Eglwys Crist, Llandinorwig gydag un o'r athrawon, Mr Glyn Thomas, ar ôl cystadlu yn yr Wyl Gorawl Eryri, 1981, a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Eglwys St Mair, Y Felinheli. (Llun gan Clifford Davies).



DRAENOG

Clywed yn ddiweddar gan gyfaill o ddraenog sydd yn byw i fyny ar y llethrau uwchben Cwm y Glo ei fod wedi sylwi ar griw o ferched heini yn cerdded heibio. Pob dim yn iawn, ond ymhen ychydig dyma'r genod yn

dod yn ôl. Ymhen ychydig wedyn dyma'r 'pishyns' hoenus, deniadol yn pasio heibio eto ar eu ffordd yn ôl i fyny. Saeson o Lerpwl, neu Lundain, neu Fanceinion wedi mynd ar goll mewn gwlad estron? Dim ffiars o beryg!! Neb llai na genod 'Clwb Cadw'n Heini' Brynrefail ar daith nodedig. 'Dwn i ddim faint o bres wnaeth y genod, ond yn ôl yr hyn a glywais mae mapiau O.S. o'r ardal yn costio tua £1.50!

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CŵR A BEDDAU

A THREFNWYD A'NGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: PENYLLYNN 518 (Dydd)
Y FELINHELI 70124 (Nos)

Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278

(Danny a Nerys Roberts)


Pryd gorau'r fro

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un
fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

CRYS NEWYDD

TUDALEN I'R
PLANT: HEN AC
IFANC
Gan
DYFRIN
Y DEWIN



Aeth Dydd y Tadau heibio. Sgwn i
gafodd eich tad gerdyn neu anrheg?
Roedd un o dadau'r fro yn lwcus;
cafodd grys newydd yn anrheg. Ond
tybed faint gostiodd y crys?
Wyddoch chi faint o bethau eraill y
bu'n rhaid talu amdanynt?

...un bocsbord
...un caled wedi ei liwio
...un bag polythene i ddal y crys
...torchau llawes plastig.
...saith o binnau
...dalen o gardbord tenau o'r tu
mewn i'r crys er mwyn gwrthio'r
pinnau iddo
...ac wrth gwrs, y crys.

'Rwy'n siŵr nad oedd dad angen
yr holl bapur, a phlastig, er bod mam
yn reit falch o'r pinnau efallai!
Hebddynt, byddai'r crys o bosibl yn
rhatach i'w brynu. Byddai llawer o
wastraff wedi ei arbed hefyd –
cardbord, cemgau i wneud y
polythene a'r seliwoid, olew (i'w
losgi i gynhyrchu pŵer i greu trydan
i'w roi i'r ffatri), coed (i'w torri a'u
mwydo i wneud papur), ac yn y
blaen, ac yn y blaen.

Ond byddai gwaith llawer o bobl

wedi ei golli hefyd – y bobl sy'n
creu'r polythene a'r seliwoid; sy'n
torri'r coed, sy'n gwneud y papur
... Sut byddai'r rheini'n ennill eu
bywoliaeth?

Os oes gennych chwi syniadau
ynghŷn â gwastraff, ysgrifennwch at
Dyfrin i roi gwybod iddo. Bydd y
syniadau gorau'n cael eu cyhoeddi.

CYSTADLEUAETH

Rydych wedi penderfynu gadael
ardal yr 'Eco' a symud i fyw ar ynys
unig draw yng nghanol Môr y De.
Ni fydd arian o unrhyw werth i chwi
yno, ond mae gennych bunt i'w
gwario cyn gadael. Sut y byddech
yn gwario'r bunt olaf? Anfonwch
eich syniadau i Dyfrin y Dewin,
Gwasg Gwynedd, Caernarfon.
Bydd y goreuon yn cael eu
cyhoeddi, a'r syniad gorau yn cael
punt o wobr i'w gwario!

BETWS GARMON

EGLWYS GARMON SANT –
Dathlwyd ail agor Eglwys Betws
Garmon gyda gwasanaeth nos lau,
Mai 14. Ymgymerydd â'r gwaith o
beintio'r adeilad drwyddo draw gan
fechgyn ifainc a gyflogir gan
'Diwydiannau Cymdeithasol', sydd
â'u pencadlys ym Mhorthaethwy.
Trwy ymdrechion y bobl ifainc hyn
a'r hyfforddwr mae'r Eglwys yn
edrych yn hardd a thrwsiadus. Diolch
iddynt am ffrwyth eu llafus.

Cartref dros dro i'r gynulleidfa
gydol y gaeaf fu capel Plas y Nant ac
Eglwys St. Ioan, Waunfawr.

PRIODAS – Gweinyddwyd priodas
gyntaf ym Metws Garmon ers ugain
mlynedd ar Fai 30. Y briodasferch
oedd Belinda Caulfield, Pentre Bach
a'r priodfab oedd Richard
Christopher Fretwell. Dymunwn yn
dda iddynt yn eu bywyd priodasol.

DAMWAIN – Gobeithio y caiff
Richard Davies, Gwesty Castell
Cidwm dynnu'r plastar yn fuan wedi
ei ddamwain tra'n y Coleg Technegol
yn Llandrillo. Dymunir yn dda iddo yn
ei swydd yng ngwesty'r 'Prince',
Beddgelert.

SIBRYDION O'R YSGOL BRYNREFAIL

GUINNESS BOOK OF RECORDS – Mae
enw'r ysgol wedi ymddangos yn aml
mewn papurau lleol yn ddiweddar.
Ond coeliwch neu beidio bydd enw
Ysgol Brynrefail yn ymddangos cyn
bo hir yn y 'Guinness Book of Records'.
Dylwn ddiolch i griw o sgiwyr o'r
ysgol, am hyn.

Nhw yw'r grŵp cyntaf o
ddisgyblion ysgol i ymgeisio 'GHaute
Route' o Chamonix i Zermatt ym
mynyddoedd yr Alpau. Hon yw'r
daith fwyaf erchyll yn Ewrop i sgïo
arni. Estynna'r ysgol eu
llongyfarchion i'r canlynol am fod
mor fentrus: Christopher Lloyd,
Timothy Lloyd, Mandy Tilston,
Robina McCann, Kirsty McCann a
Toby Manning.

'Roeddynt o dan ofal Mrs Marjory
Wroe, a threfnwyd y daith gan Mr
John Ellis Roberts warden y Parc
Cenedlaethol.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR
URDD – RHIAN ETO! – Yn ystod
gwyliau'r Sulgwyn cynhaliwyd
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn
Nyffryn Teifi. Daeth dwy eitem o'r
ysgol yn fuddugol. Mae Rhian Owen
yn enwog ar hyd a lled Cymru erbyn
hyn! Daeth yn fuddugol unwaith eto
ar yr unawd i ferched rhwng 15-19.
Llongyfarchiadau gwresog iddi.

GWLITH – Daeth Gwlith yn fuddugol
yng nghystadleuaeth y gân werin
fodern. Cafodd y beirniad Delwyn
Sion ei blesio gyda safon y grwpiau i
gyd.

Llongyfarchiadau genod am ennill
tlws a roddwyd i'r Eisteddfod gan
Hogia'r Wyddfa. Mae'r talent gan y
grŵp Gwlith i fod yr un mor enwog!



Aelodau Gwlith: Rhian Owen, Nia
Pritchard Jones, Iola Llywelyn, Sian
Gibson, Lynne Jones, Ruth Lennon.

CELF A CHREFFT – Yn ogystal â'r
llwyddiant yng nghystadleuaethau
Cerddoriaeth yn Eisteddfod yr Urdd,
daeth yr ysgol yn llwyddiannus yn yr
adran gelf a chrefft hefyd. Yn ystod y
22 mlynedd ddiweddar, mae'r ysgol
wedi ennill gwobr gyntaf am ugain
o'r blynyddoedd y mae wedi
cystadlu. Dyma restr o'r buddugwyr:
Ruth Evans, 1af, peintio dosb. 5 a 6; Helen
Owen, 1af, printio dosb. 5 a 6; Christopher
Mark Williams, 2il, collage dosb. 1 a 2;
Angela Lloyd, 2il, printio dosb. 1 a 2; Dylan
Wyn Jones, 2il, printio dosb. 3 a 4.

Llongyfarchiadau iddynt ac hefyd
i'r athro arlunio, Mr Evie Roberts.

COLLI DWY ATHRAWES – Bydd yr
ysgol yn dechrau mis Medi nesaf heb
ddwy o'i hathrawon. Mae Miss
Elisabeth Williams wedi cael swydd
fel prifathrawes yn Ysgol Dyffryn
Nantlle Penygroes, ac mae Mrs Ann
Owen wedi ei phenodi fel
prifathrawes yn Ysgol Caergybi.
Bydd colled ar eu holau! Dymuna
pawb bob llwyddiant iddynt yn eu
swyddi newydd.

YMWELIAD Â STRATFOD – Yn ystod
mis Gorffennaf bydd disgyblion o'r
ysgol yn mynychu drama
Shakespeare 'Winter's Tale' yn

Theatr enwog Stratford. Mae Mrs
Noreen Manning wedi llwyddo i gael
tocynnau sydd erbyn hyn yn brin.
Bydd cyfle i'r disgyblion gael gweld o
gwmpas tref geni'r dramodydd
enwog yng ngofal Mrs Manning, Mrs
Mary Huws a Mr Alwyn Fleming.

'BOCHUM', GORLLEWIN YR
ALMAEN – Yn ystod mis Gorffennaf
bydd disgyblion o'r ysgol, sydd yn
aelodau o Gôr leuencid Gwynedd,
yn mynd ar daith i Bochum, yng
ngorllewin yr Almaen. Byddant yn
mynychu Cwrs yng Ngholeg y
Normal Bangor yn gyntaf. Bydd cyfle
i glywed y Côr yn canu ar nos Wener,
Gorffennaf 2 yn Theatr Seilo
Caernarfon am 7.00 p.m.

DIOLCHIADAU GAN 'GWLITH' –
Hoffai aelodau o 'Gwlith' ddiolch i'r
canlynol am y cymorth a roddwyd
iddynt tra'n cystadlu yn Eisteddfod yr
Urdd.

I Arfon Wyn (Pendalar) am
ysgrifennu'r geiriau. I Mrs Rhian Ellis
am gael menthyg ei phiano heb ddim
cwyn. I Miss Elisabeth Williams am
drefnu eu harhosiad yn Nyffryn Teifi.
I Ysgol Pendalar am gael benthg y
bws. I Mr Fleming am ddreifio'r bws
ac i Mrs Fleming am edrych ar ôl Mr
Fleming. I Mrs Lennon am drefnu
raffi tuag at gostau teithio. I Rhian a
Sian am ysgrifennu'r alaw sydd
erbyn hyn yn adnabyddus!

Ac yn olaf, ac yn arbennig, i Mrs
Carys Jones am fod wrth gefn bob
amser.

ATHLETAU – Ym
mhencampwriaethau athletau
Ysgolion Gwynedd a gynhaliwyd ym
Mangor ar Fehefin 13 fe wnaeth
disgyblion o'r ysgol yn arbennig o
dda.

Meirwen Williams o Benisarwaun yn
gyntaf yn y gystadleuaeth taflu'r
ddisgen dan 13eg; taflodd Meirwen
21.62 metr sy'n record Sir newydd.
Susan Ward o Lanrug hefyd yn
gyntaf yn y gystadleuaeth taflu'r
ddisgen dan 15eg oed. Matthew
Antoine o Lanberis yn gyntaf eto yn y
gystadleuaeth taflu'r ddisgen i
fechgyn dan 15eg oed. Bu Susan a
Matthew Antoine yn cynrychioli
Ysgolion Gwynedd ym
Mhencampwriaethau Ysgolion
Cymru yn Aberhonddu ar Fehefin 30.

Fe ddaeth y canlynol i gyd yn ail yn
eu cystadleuaethau ym Mangor.
Melanie Sellar, Llanberis, 1500 m
genethod dan 15eg oed; Michael
Roberts, Cwm-y-glo, pwysau
bechgyn dan 15eg oed; Howyn
Roberts, Deiniolen, picell bechgyn
dan 13eg oed.

CRICED – Er gwaetha'r tywydd gwael
mae timau criced yr ysgol yn cael
tymor eitha' llwyddiannus. Mae'r tim
dan 14eg wedi cyrraedd rownd
gyn-derynol y gystadleuaeth i dimau
Ysgolion Gwynedd.

Yn y gêm gyntaf enillasant gartref
yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle.
Brynrefail 130 rhediad am 5 wiced;
Dyffryn Nantlle 38 – pawb allan.

Yn yr ail gêm trechwyd ysgol
Tryfan ym Mangor. Tryfan 17 – pawb
allan; Brynrefail 19 am 2 wiced.

GEMAU CYFEILLGAR – Dan 14eg oed
– yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen
gartref – Brynrefail 106, pawb allan.
Dyffryn Ogwen, 63, pawb allan. Dan
13eg oed – yn erbyn Ysgol
Segontium gartref – Segontium 45,
pawb allan; Brynrefail 49 am 2 wiced.

DRAENOG



Llongyfarchion i'r
organyddes o Lanrug sy'n
medru darllen sol-ffa a hen
nodiant gyda chymorth y
geiriadur mawr!!

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

TRYCHINEB AR DRIP YSGOL SUL

MAE TRIPIAU'R Ysgolion Sul yn parhau'n eu bri o hyd, er mai i'r 'Butlin's' y mae'r mwyafrif yn mynd heddiw yn hytrach nag i'r Rhyl ar y trê. Rhyfedd fel mae'r ffasiwn yn newid. Ers talwm, rhaid oedd bodloni ar drip i Ddinas Dinlle, a honno'n anturiaeth fawr yn aml! Ychydig iawn mae'n debyg sy'n gwybod am drychineb mawr a ddaeth i'r ardal dros bedwar ugain o flynyddoedd yn ôl, a hynny ar drip Ysgol Sul. Cawsom yr hanes gan Miss M. Foulkes, Garnedd Wen, y Fachwen, ac y mae rhan o'r hanes wedi ei gopïo o adroddiad yn un o bapurau Cymraeg y dydd:

Digwyddodd y trychineb ar Orffennaf 1af, 1899. Roedd trip Ysgol Sul Eglwys Santes Mair, Dinorwig wedi teithio yr holl ffordd i Bwllheli. Aeth nifer allan mewn cwch ar y bae ond dymchwelodd y cwch, a boddwyd deuddeg o bobl a phlant; y cyfan o Ddinorwig. Fel hyn y disgrifir yr hanes yn yr 'Herald':

"Ni chafodd neb a oedd yn y cwch ei achub ag eithrio'r cyhwr yr hwn oedd yn nofiwr da; nofiodd ef i'r lan trwy ymdrech galed. Dydd Sadwrn y tâl (setlo) yn y chwarel oedd hi. Yr oedd y môr ychydig yn gynhyrfus gyda'r gwynt braidd yn gryf, a'r cwch yn llawn o blant, sef naw; a phedwar o bobl mewn oed. Digwyddodd i un o'r dynion godi ar ei draed a symud i ran arall o'r cwch i edrych ar ôl y plant, ac wrth wneuthur hynny, camodd o'r naill ochr i'r llall, a bu hynny yn ddigon i'w dymchwel a'i wyneib yn isaf, a bodd deuddeg o anwyliad Dinorwig. Nid oedd yr un cwch arall wrth law i'w hachub, ond cafwyd rhai o'r cyrff i'r lan yn bur

fuan wedi'r ddamwain, ond methwyd ag adfer bywyd yr un ohonynt, er i lawer ymdrechu rhoddi anadliad celfyddydol iddynt. Ond buwyd am rai dyddiau cyn dyfod o hyd i rai o'r cyrff, ac os cywir, bu un am oddeutu wythnos heb ei gael.

Golygfa dorcalonus a difrif oedd gweled y cynhebrwng mawr ar ei daith, ac unarddeg o eirch ar ysgwyddau cyfeillion yn symud yn araf i lawr Gallt y Foel y naill ar ol y llall yn llinell hir, a'r cwbl o'r eirch yn ddi-orchudd; a'u cyfeiriad tua mynwent Eglwys Llandinorwig; nid a bydd o'n cof.

Yr oedd un teulu cyfan yn eu heirch, a mwy na hanner teulu arall, a'r cwbl yn gymdogion agos."

Mae tabled hardd yn Eglwys Llandinorwig er cof amdaynt, a'r enwau a'u hoedran wedi eu nodi arni. Casglwyd yn yr ardal a'r plwyf oddi amgylch oeddutu cant a deugain o bunnau tuag at y costau. Dyma gopi o'r hyn sydd ar y dabled:

ER COF AM

Owen Thomas, Ty'n y fawnog	33 mlwydd oed
Ellen Thomas, Ty'n y fawnog	27 mlwydd oed
Ellen Thomas, eto	10 mlwydd oed
Owen Parry Thomas, eto	3 mlwydd oed
William Edward Williams, eto	6 mlwydd oed
John John Hughes, Ty Ddewi	36 mlwydd oed
John Rowland Hughes, eto	12 mlwydd oed
Ellen Hughes, eto	6 mlwydd oed
Catherine Ann Hughes, eto	10 mlwydd oed
Richard Hughes, Tan y bwlch	15 mlwydd oed
Thomas T. Hughes, eto	12 mlwydd oed
Charles Davies, Bron Elidir	13 mlwydd oed

Hawdd gweld oddi wrth yr oeddrannau fod teuluoedd ieuanc wedi dioddef yn y drychineb.

Ysgrifennwyd y penillion canlynol am y drychineb. Y testun yw 'Trychineb Pwllheli', ond nid oes sicrwydd pwy yw'r awdur. Byddai'r 'Eco' yn falch o dderbyn mwy o wybodaeth am y digwyddiad hwn.

RHODDION

50c. Di-enw, Penisarwaun
50c. - Mrs Katie Jones, 13 Pentre Helen, Deiniolen
£5 - Mr a Mrs M. Parry,

TRYCHINEB PWLLHELI

Y wawr ymgodai yn hefdydd gwyn
Ar fron yr Elidir Fawr
Tra llw o galonau yn dawnsio'n
chwim

Mor llon a phelydrau'r wawr.
Mae gobaith ieuencid am bleser
daith

Yn ymlid eu cwsg i blant;
Mor llon ag ewigod y llama'r llw
I'r orsaf ar gwr y Nant.

Yn y gerbydres dan ganu yr ant
I dreflan Pwllheli deg,
Yn llawn awyddfryd am fwyniant pur
Dan wenau yr hafddydd chweg.

Mae llw o ieuengid mewn pleser-fad
Ac amryw o riain llon,
Yn cychwyn i yfed awelon mwynhad
Heb bryder, ar frig y don.

Y cwch ymlithrai dros fron yr aig
Mor esmwyth a'r awel rydd;
Rhieni a phlant gyd-dystiant mai
hwn

Yn eu hoes yw'r hapusaf ddydd.

Ond pan mae y bad i ddychwel, yn
troi,

Ymruthra rhyw awel flin
Fel pe'n genfigenus wrth weld eu
mwynhad,

A chyffry ddiagonedd yr hin.

Dacw don yn ymgodi yn ffyrnig draw
Gan ruthro fel cennad brad,
A hyrddin ei hunan mewn gwallgof
nydd

Yn erbyn ystlys y bad.

O! erchyll olygfa, rhieni a phlant
Ym ymladd ag angau erch;
Ah! clywch eu dolefain, tra'r creulon
fôr

Yn gwatwor ymbiliau serch.

Pa galon mor galed na thoddai'n llyn
Wrth weled y baban iach
Yn ymladd am fyw, yn y tonnog li,
Gan ysgwyd ei freichiau bach.

Try'r mwyniant yn ddychryn i'r dorf
ar y lan;

Fel taranfolit disgynai'r braw;
Ar aden y fellten ymruthro wna
I froydd Dinorwig draw.

Mae yno gartrefi na ddychwel un
O'u hannwyl breswylwyr mwy
I sangu eu trothwy, ond yn eu harch,
Wrth ymdaith i Lan y plwy.

Mae yno galonau yn gwaedu'n llif
Am golli rhai annwyl iawn,
A'u gobaith yn cilio fel llewyrch dydd
Tros orwel eu prudd brydnawn.

Ni welir pleserdaith yn cychwyn
mwy

O'r ardal ar doriad dydd
Na ddaw y trychineb ofnadwy hwn
I daflu ei gysgod prudd...

RHESTR O BRIF-DDOSBARTHWYR YR ECO YN Y PENTREFI

Dyma'r rhai i gysylltu â nhw os ydych
yn cael anhawster i sicrhau copi o'r
Eco yn eich pentref. O rifyn mis Medi
ymlaen bydd enwau'r
prif-ddosbarthwyr yn ymddangos
yng nghlofnau'r pentrefi o dro i dro.

LLANRUG: Mr H. Jones, Pant Mwyn.
(Caernarfon 3838)

CWM Y GLO: Mr Llew Hughes,
Hyfrydle. (Llanberis 340).

WAUNFAWR: Mr D. Roberts, Swn y
Gwynt, Bodhyfryd. (Waunfawr 588).

BETHEL: Mr Emyr Wyn Jones,
Wenallt.

CEUNANT: Mrs Helen Parry, Morwel.
(Waunfawr 321).

DEINIOLEN: Mr Caradog Thomas, 2
Bron Helen, Clwt-y-Bont. (Llanberis
782). Mr Owain Myfyr Parry, Trifga,
Clwt-y-Bont. (Penllyn 278).

TAN Y COED: Mrs Lola Butler, Hadde
(Waunfawr 318). Mrs Owena Parry,
Ael y Bryn. (Waunfawr 537).

PENISARWAUN: Mr Dafydd Owen, 7
Brynhyfryd.

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid. (Waunfawr 294).

LLANBERIS: Mr K. Jones, 19 Maes
Padarn. (Llanberis 371). Mr B.P.
Jones, Garfield House. (Llanberis
413).

DINORWIG: Mr O.R. Williams, 2 Bro
Elidir. (Llanberis 671).

NANT PERIS: Mr J.W. Elis, 8
Glanrafon. (Llanberis 733).

BRYNREFAIL: Mr D.G. Elis,
Gweledfa. (Padarn 223).

FACHWEN: Mrs L. Williams,
Tan-y-Fron. (Llanberis 873).

CYWIRO

YN Y Nodiadau Natur rai misoedd yn
ôl dywedwyd am y neder fraith "Nid
yw hon yn wenwynig iawn." Dylsem
fod wedi cyhoeddi "Nid yw hon yn
wenwynig fel y wiber, nid bod honno
yn wenwynig iawn."

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:

PENLLYN 285
neu PADARN 327

PLAS TAN Y BWLCH Cadernid Gwynedd

MEDI 4-6, 1981

Cwrs ar gyfnod 'geni' Gwynedd-yr oes euraidd,
rhwng ymadawiad y Rhufeiniaid a dyfodiad y
Saeson.

Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri
Maentwrog
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd LL41 3YU
(076685) 324/334



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

O SIAMBR SELWYN

PENTREF diarffordd sy'n llechu'n swil yng nghesail y mynyddoedd uwchben Dolgellau yw Llanfachreth. Ffyrdd troellog culion sy'n arwain iddo o bob cyfeiriad, ond yma bob mis Mehefin fe gynhelir un o Steddfodau mwyaf llwyddiannus Cymru. Cefais y fraint o feirniadu yno eleni, yng nghwmni T. Gwynn Jones, ac Aled Lloyd Davies, ac er bod niwl mynydd wedi lapio'i hun am bentre Llanfachreth, cafwyd Steddfod arbennig yno, cystadlu brwd hyd fore Sul, y neuadd dan ei sang, ac awyrgylch hwyliog gartrefol yno drwy'r dydd.

Cyhoeddir cyfansoddiadau buddugol y Steddfod hon bob blwyddyn ynghyd â chyfansoddiadau buddugol eisteddfodau Llangwm, Llandderfel a Llanuwchllyn. Llên y Llannau yw'r gyfrol a cheir ynddi farddoniaeth, ysgrifau, a thraethodau buddugol y pedair gwyl. Dychrynais braidd pan sylweddolais i ugain mlynedd fynd heibio er pan fûm i yn steddfod Llanfachreth o'r blaen. Y tro hwnnw cefais wahoddiad i fynd yno i eistedd yng nghadair y Steddfod, gan i'r Prifardd T. Llew Jones fod mor garedig a dyfarnu'r gadair i mi. Aeth ugain mlynedd heibio fel gwynt, - mae'n ddychryn i mi.

Nid gwynt, ond glaw a mwd a gafwyd ym Mhrifwyl yr Urdd yn Nyffryn Teifi, ond er gwaetha'r tywydd, roedd cynhesrwydd y croeso i'w deimlo ar dir Parc Nest. Steddfod damp a diflas dan draed, efallai, ond yn sicr un o steddfodau mwya' croesawus. Yn binacl ar y cyfan daeth buddugoliaeth ysgubol partïon Ysgol Dolbadarn, Llanberis â llawenydd arbennig i mi.

Gwn yn dda am ymdrechion a dyfalbarhad Mrs Eirlys Pierce ers blynyddoedd. Gwn yn dda am yr oriau o lafur cariad di-rwgnach a roddodd dros y blynyddoedd i hyfforddi'r plant. Cafwyd sawl siom yn ystod y degawd diwethaf yn naturiol, ond yn y môr o fwd yn Nyffryn Teifi, daeth gorfoledd ar awr fawr eu buddugolaeth ddwbwl. Gwireddwyd yr hen ddihareb - "aml gnoc a dyr y garreg". Llongyfarchion cynnes Eirlys a phlant Ysgol Dolbadarn, - fe anghofiais innau am ddiiflastod y mwd yng ngwres eich buddugoliaeth. Daliwch ati, a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Ymhen mis byddwn yn hel ein pac a chychwyn am Brifwyl Maldwyn. Fûm i ddim yn yr Eisteddfod a gynhaliwyd yno yn 1937, ond mae gen i go plentyn o wrando ar y Seremoni Cadeirio ar y radio, a 'doedd yr enw T. Rowland Hughes ddim yn ddiarth i mi hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hynny.

Ym mhentref gwledig Talwern, ym mhlwyf Penegoes, ger Machynlleth, ym mis Mehefin 1862 y ganwyd gŵr a gychwynnodd Eisteddfodau'r Plant.

Ei enw oedd Rhys Jones Huws, ond fel Rhys J. Huws y daethpwyd i'w adnabod gan bawb ledled Cymru.

Pan oedd Rhys yn saith oed symudodd ei deulu i fyw i Dylife, gan i'w dad gael gwaith yn y gweithfeydd mwyn yno. Yno y cafodd ei addysg gynradd, a rhaid ei fod yn ddysgwr arbennig oherwydd roedd o'n athro ddisgybl yn ysgol Staylittle pan oedd o ond tair ar ddeg oed. Pan oedd ond deunaw oed apwyntiwyd ef i ofalu am ysgol Aberhosan, pentref cyfagos i Darwern, man ei eni.

Fe ymgartrefodd Rhys J. Huws yn Aberhosan, ac fe briododd ferch o'r ardal. Pan fu farw'r gweinidog yno, dechreuodd yntau bregethu, gan gyfuno gwaith ysgol a chapel.

Ogofio cyn lleied o ysgol a gafodd, mae ei yrfa yn dipyn o ryfeddod a dweud y lleiaf.

'Roedd o'n gerddor gwych, ac yn llwyddo i arwain corau i gipio gwobrau mewn eisteddfodau lleol.

Bu cryn llawer o sôn amdano fel bardd hefyd. 'Roedd o'n arweinydd y 'Beirdd Newydd' a oedd yn canu ar droad y ganrif, ond does 'na fawr o werth llenyddol yn ei brydyddiaeth, a buan iawn y sylweddolodd yntau hynny, ac fe droes at ryddiaith.

Wedi bwrw ei brentisiaeth am flynyddoedd yn Aberhosan fel athro plant a phregethwr fe benderfynodd fynd i'r weinidogaeth, a dilynodd gwrs yng Ngholeg Aberystwyth.

Wedi cyfnod fel gweinidog yn y Bermo derbyniodd alwad i Fethel, lle y bu iddo gychwyn Eisteddfod y Plant, ac os am hanes ei weithgarwch llwyddiannus ym Methel - wel darllenwch 'Hen Atgofion' W.J. Gruffydd.

Meddai W.J. Gruffydd am yr eisteddfod, "Da gennyf feddwl mai yn fy hen ardal i yr heuwyd yr hedyn sydd erbyn heddiw wedi tyfu'n bren mor gadarn!"

Ac meddai am Rhys J. Huws, "Ni welodd Cymru erioed, ac nid wyf yn credu y gwêl byth, athro plant tebyg iddo. Yn wir y mae'n anodd i mi fesur fy ngeiriau wrth sôn am ei dalent hon. Credaf ei fod ymhlith ychydig iawn o athrawon gorau'r byd, - nid am fod ganddo ddamcaniaethau newyddion am natur addysg, ond am fod yr un peth hanfodol hwnnw ganddo, - y ddawn gynhenid, yr 'awen' anhepgor, i drin plant a'u cael i ddysgu."

Nid gŵr a wasgarai glod, os nad oedd y clod hwnnw'n ddyledus oedd Gruffydd, ond roedd prif gritic ei ddydd yn barod iawn i roi pennod gyfan o'i Hen Atgofion i glodfori Rhys J. Huws.

Ys gwn i a gofir am Rhys J. Huws ym Mhrifwyl Maldwyn eleni?

Hwyl ichi dros y gwyliau, Selwyn.

CEUNANT

O'R YSBYTY - Croeso adref i Miss Mary Pierce o Ysbyty'r Bwth, Caernarfon. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

CARPEDI



ALUN GLYNJONES

(Wetton a Thomas)

14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705

(gyferbyn â'r orsaf fysiau)

Gostyngiad sylweddol am arian parod

Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif

LLENNI



BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Mike Gosh o'r Cyngor Gwarchodaeth Natur. Rhoddwyd y te gan Rhian Jones a Sheila Williams, rhoddwyd anrheg y mis gan Mair Williams ac fe'i enillwyd gan Rhian Jones.

CLWB MAMAU - Yng nghyfarfod Mehefin 11 yn Nhŷ Glas, dangoswyd ffilmiau ynglŷn â gwaith y Cyngor Ymchwil Athritis gan Mr E.J. Stapleton. Rhoddwyd y te gan Carol Houston a Pat Jones, rhoddwyd anrheg y mis gan Rhian Jones ac fe'i enillwyd gan Sheila Williams. Bydd cyfarfod mis Gorffennaf yr un olaf am y tymor presennol.

CLWB PEDWARUGAIN - Dalier sylw y bydd y mabolgampau, gemau giamocs a chystadlaethau gwisg ffansi ar y cae chwarae ar ddydd Sadwrn, Awst 15. Enillwyr mis Mai: Mai 1, 1. Ann Jones, 2. Dwynwen Owen, 3. Jackie Jones. Mai 8, 1. Dilys Jones, 2. Mrs Mowll, 3. Islwyn Williams. Mai 15, 1. Ann Parry, 2. Pete Wellsby, 3. Phyllis Jones. Mai 22, 1. Shirley Roberts, 2. Meilir Roberts, 3. Elinor Williams. Mai 29, 1. Peter Casey, 2. Arthur Jones, 3. Sheila Williams.

ACHOS DA - Yn hollol wirfoddol ac ar liwt ei hunan yn ystod gwyliau'r Pasg, bu Emma Roberts, Alwen Jones, Caron Jones a Sally Ellis yn codi arian ar gyfer *Action Research for the Crippled Child*. Cyflwynwyd y bedair â thystysgrif o ddiolchgarwch am godi £13.50.

TRIP YR YSGOL SUL - Dydd Sadwrn, Mehefin 13 aeth aelodau Ysgol Sul MC Brynrefail am eu trip blynyddol. Treuliwyd y prynhawn yn ymweld â Pharc Erddig ger Wrecsam gan ddychwelyd drwy Fae Colwyn a mwynhau orig ym mharc Eirias. Cafwyd diwrnod braf a mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn.

BEDYDD - Fore Sul, Mai 31 yng Nghapel MC Brynrefail a'r Parch S.O. Hughes, Bethel yn gwasanaethu, bedyddiwyd Sioned Wyn, merch Mr a Mrs G. Jones, Caernarfon ac wyres i Mrs E.M. Roberts, Bronallt.

PROFEDIGAETH - Yn ystod y mis a aeth heibio, bu farw Mr John Roberts, gynt o Fryn Awelon ond a fu ers peth amser yn byw yn Llwyncoed Bach dan ofal ei fab a'i ferch yng nghyfraith Mr Bertie Lloyd Roberts a Mrs Helen Roberts. Yr oedd Mr Roberts yn gymeriad didwyll a siriol bob amser, yn weithgar a ffyddlon yn yr Achos yng Nghapel Brynrefail. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU - Mae Pwyllgor lleol y Gymdeithas yn trefnu 'Barbeciw', i'w gynnal yng Nghanolfan Dinorwig, am 6.30pm, nos Wener, Gorffennaf 17. Pwrpas y Barbeciw fydd hyrwyddo'r cysylltiad a sefydlwyd y llynedd rhwng Eglwys i'r Adran drwy'r Daith Gerdded ac Encil Ddistaw.

Peidied neb a disgwyl saig o gig eidion yn y Barbeciw; cynigir tamaid o gig mochyn ar ffurf *Sausage Roll* yn unig a phaned i'w olchi i lawr! Os na'ch digonir ar hynny, byddwch yn sicr o'ch bodloni ar yr adloniant ysgafn gyffrennir gan ddoniau lleol yn ystod y noson. Er cyfarfod y costau gofynnir i blant dalu mynediad 15c ac oedolion 25c.



CYDYMDEIMLAD - Ar fore dydd Iau, Mehefin 25, syfrdanwyd pawb gan farwolaeth sydyn Hughie Evans, Min y Don. Mae geiriau yn hollol annigonol mewn amgylchiad o'r fath - amhosibl fyddai mynegi y tristwch a'r gofid a deimlir gan bawb. Fe hunodd Hughie ym more ei oes ac yng nghwmni ei gyfeillion yn chwarae yn siriol a llon. Byddai yn ddeuddeg oed ar Fehefin 29.

Mae ein teimladau o gydymdeimlad dwys gyda'r teulu oll yn eu galar, yn arbennig gyda Dilys a Hugh, yn fam a tad annwyl a fu yn llawn gofal amdano - hefyd ei frodyr a chwiorydd - Marian, Euron, Einir a Bryn.

NANT PERIS

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i Helen Mai, Tŷ Isa ar ei llwyddiant ym mabolgampau'r Urdd yn Ysgol Brynrefail. Daeth yn gyntaf ar y naid uchel a hefyd y ras redeg. Mae Helen yn weithgar iawn a llwyddiannus hefyd ym mrig canu ac adrodd.

LLONGYFARCHWN Alwyn S. Jones, Dwyfor ar fod yn llwyddiannus yn ei arholiadau yng Ngholeg Bala Bangor. Llwyddiant eto ymlaen, Alwyn.

GWAELEDD - Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs W.J. Williams, 1 Tany bryn sydd newydd ddychwelyd o Ysbyty Môn ac Arfon ar ôl llawdriniaeth ac i Mr Meirion Pritchard, Tŷ Isaf sydd ar hyn o bryd mewn ysbyty yn Lerpwl, hefyd i bawb arall sydd yn cwyno ers tro byd.

LLWYDDIANT - Ein llongyfarchion i Jennifer, John a David Ellis, Hafan ar eu llwyddiant yn arholiadau ysgrifenedig Cymanfa'r Eglwys a gynhaliwyd yn y Felinheli yn ddiweddar.

PRIODAS - Dymunwn yn dda i Sian Williams a Michael Roberts ar eu priodas. Gweinyddwyd y briodas yn Eglwys Peris Sant ddydd Sadwrn, Mehefin 20. Mae Sian yn wyres i Mrs Griffiths, Awelon.

TRIP - Bydd trip Ysgol Sul Rehoboth yn mynd i'r Rhyl ar Orffennaf 11. Gofynnir am enwau'r rhai sydd am fynd i Alwyn S. Jones erbyn Gorffennaf y 4ydd os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.

LLONGYFARCHIADAU - i Helen a Tony Adams ar enedigaeth mab, brawd i Gareth ac Edward, ac ŵyr arall i Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant.

BETHEL

MERCHED Y WAWR – Er gwaetha'r glaw trwm, cafwyd noson ddiddorol, pan aeth Merched y Wawr Bethel ar wibdaith i fyny bwlch Llanberis trwy Nant Gwynant, a chael pryd yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert. Swyddogion am 1981-82 fydd: Llywydd, Mair Price; Is-lywydd, Rita Williams; Ysgrifennydd, Gwyneth Jones; Is-ysgrifennydd, Gwyneth Williams; Trysorydd, Joan Ffoulkes; Is-drysorydd, Mabel Jones.

Gwnaed elw o £50 yn y Noson Goffi tuag at y Spinabifida Cylch Caernarfon.

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON – Ar Fai 22 cynhaliwyd cystadleuaeth Torri a phacio oen yn lladd-dŷ Caernarfon. 'Roedd wyth tîm yn cystadlu, Helen Jones a Dafydd Jones o Glwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon gafodd y wobwr gyntaf. Bydd Helen a Dafydd yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth yn Sioe Frenhinol Cymru yn ystod yr haf. Pob lwc iddynt.

Daeth Jane Thomas yn gyntaf yn y gystadleuaeth addurno cacen ben-blwydd yn Rali Flynyddol Ffermwyr Ieuainc Eryri yng Nglynllifon ar Fehefin 6. Pob lwc iddi hithau yn y Sioe Frenhinol. Diolch hefyd i bawb arall fu'n cystadlu.

Estynnir croeso i unrhyw un sy'n dymuno ymaelodi yn y clwb pan fydd yn ail-gychwyn cyfarfod yn y Neuadd Goffa.

EISTEDDFOD BETHEL A'R CYLCH – Cynhelir cystadlaethau Gwaith Llaw (Dynion a Merched) nos lau, Rhagfyr 3, 1981. Dyma restr o'r testunau.

Gwnio neu Wau – Dan 9 oed. Sgarff Doli. Dan 12: Lliain Hambwrdd yn dangos gwahanol bwythau. Dan 16: Gorchudd Clustog. Agored: Ffrog i ffitio'r ymgeisydd neu blentyn. Matinee Coat. Siwmpwr. Unrhyw waith yn dangos brodwai. **Celf a Chrefft, Agored:** Addurn Nadolig. Unrhyw beth o focs esgidiau. Unrhyw beth o begiau dillad. Collage. Arlunio – agored. **Gwaith Coed:** Unrhyw declyn defnyddiol i'r tŷ. **Gwaith Metel:** unrhyw declyn defnyddiol i'r tŷ.

Y CARNIFAL – Cafwyd wythnos Garnifal lwyddiannus iawn eto eleni, o'r Gymanfa yng Nghapel Bethel nos Sul, i'r disgo yn y Neuadd nos Sadwrn. Daeth criw da ynghyd i'r holl weithgareddau ac mae'n diolch yn fawr i bwyllgor y Carnifal ac yn arbennig i Ysgrifennydd y Pwyllgor, Mrs Nora Parry am yr holl waith maent wedi ei wneud i drefnu'r wythnos.

CYDYMDEIMLO – Ar ôl gwaelled hir bu farw Mr Edward Hughes, 17 Bro Rhos ar Fai 4. Estynnir ein cydymdeimlad â Mrs Hughes a'r teulu yn eu profedigaeth.

DYMUINIADAU DA – Ar ôl bod yn dysgu yn yr ysgol am rai blynyddoedd bydd Mrs Mary Lloyd Evans yn ymddeol o'i swydd ar ddiwedd y tymor. Dymuniad y pentrefwyr a'r plant i gyd yw ar i Mrs Evans fwynhau ei hun adref gydag Arwyn, sydd bellach yn flwydd oed, a diolch iddi am yr holl waith a wnaeth tra yn yr ysgol.



Llun o Mr a Mrs John Michael Jones efo mam Mrs Jones, awdures y llyfryn difyr 'Nel bach Lôn Glas' ddiwrnod agor Amgueddfa T. Rowland Hughes. Mr Jones gafodd yr anrhydedd o wneud y plac llechen i'w roi ar fur allanol hen gartref T. Rowland Hughes – "y dewraf o'n hawduron".

THEATR BARA CAWS

Dipyn o hanes gweithgaredd presennol eich Cwmni Theatr Cymuned . . .

Yn dilyn taith hynod lwyddiannus y 'Bynsan Binc' ddechrau'r flwyddyn, rhaglen a welwyd gyda llaw gan dros 10,000 ohonoch yng Ngwynedd, cafwyd seibiant bach cyn dechrau ail ymarfer y cynhyrchiad ar gyfer Gŵyl Theatr Ryngwladol '81 a gynhaliwyd ym Mhowys yn niwedd mis Mawrth. Cafwyd addewid o gymhorthdal gan Gyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn 1981-82, ac er bod angen llawer mwy i gynnal y cwmni am y flwyddyn, aethpwyd ati i drefnu rhaglen waith ddeuddeng mis.

Yr hyn sydd gan y cwmni ar y gweill rwan yw cynhyrchiad ar gyfer plant ieuengaf yr Ysgolion Cynradd – 'Y Bwbach Blêr', ac fe fyddwn yn ymweld â 64 o wahanol ysgolion ar hyd a lled Gwynedd dros gyfnod o 7 wythnos. Trefnwyd y rhaglen liwgar yma er mwyn cyflwyno'r syniad o gadwraeth i'r plant a'u hysgogi i feddwl am bwysigrwydd peidio llygru'r amgylchedd, a'r modd y gall pob un ohonynt hwy fod o gymorth i leddfu'r broblem. Y rhai sy'n bennaf gyfrifol am gadw trefn ar 'Y Bwbach Blêr' yw Sara Hughes, Sian Meredydd, Myrddin Jones a Dyfan Roberts.

Gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin

yn cyrraedd ei ddeng mlwydd oed eleni darparwyd rhaglen ddifyr ar gyfer yr Wyl Feithrin Genedlaethol Mehefin 8-13. Treuliwyd diwrnod ymhob un o'r pum ardal yng Ngwynedd gyda'r cylchoedd meithrin yn ymgynnull mewn canolfan addas. 'Rwy'n siŵr y caiff y mamau gymaint o hwyl â'r plant! Bu ymweliad ag Ysgol Treborth, Bangor ar ddiwedd yr un wythnos.

Un o brif anghenion Theatr Bara Caws ar hyn o bryd yw fan ddibynadwy, ac yn ddiweddar, lansiwyd apêl am gymorth ariannol gan wahanol gwmnïau a busnesau yng Ngwynedd. Os oes rhai o ddarlennwyr Eco'r Wyddfa heb dderbyn ein llythyr 'os gwelwch yn dda', ond yn dymuno cyfrannu, fe fuasem yn ddiolchgar iawn o'ch cymorth. Rhoddir cydnabyddiaeth o gyfraniad pob cwmni neu fusnes ar gorff y cerbyd yn ogystal â'u rhestru ar bob rhaglen tra pery'r fan. Ein cyfeiriad yw Theatr Bara Caws, y Coleg Normal, Bangor.

Hoffwn gymeryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch am bob cymorth ariannol a gawsom gan y gwahanol Gynghorau Cymdeithas – bu'r gefnogaeth yn fodd i'r cwmni barhau i weithio am gyfnod ychwanegol yng Ngwynedd, ac mae'r cysylltiad a'r gefnogaeth hon yn hollbwysig i ddyfodol cwmni cymuned.

CÔR CADNANT BETHEL

DIDDOROL yw gweld mor dynn yw gafael arferion a diddordebau ar fywyd ardal a sylwi bod y pentref yn glynu'n fras wrth yr un traddodiadau dros gyfnod o flynyddoedd, er bod yr oes, yn bobl, a'r ffordd o fyw yn aml wedi llwyr newid. Gwyddys am ardaloedd yng Nghymru lle bu diddordeb arbennig mewn barddoniaeth neu chwaraeon dros lawer cenhedlaeth gan fagu a meithrin wrth fynd heibio, ambell unigolyn dawnus. Cawn glywed am ardal arall efallai gyda thraddodiad cryf ym myd y ddrama yn ymestyn yn ôl ymhell i'r gorffennol.

Un o'r ardaloedd hynny "gyda gorffennol" yw Bethel a Llanddeiniolen, ac yn ddi-OS ym myd cerddoriaeth y gorwedd y diddordeb. Sefydlwyd cerddorfa yno ar droad y ganrif hon yn cynnwys offerynnau chwyth a llinynnol, yn y blynyddoedd cynnar hynny hefyd, ystyrid côr cymysg Thomas Williams, Parciau Rhos ymhlith y goreuon oddi mewn i gylch eang iawn. Yn ddiweddarach bu Ffowc Williams, sy'n awr yn byw yn Llandudno yn hyfforddi côr plant llewyrchus iawn yn ogystal â chynnal côr o oedolion yng nghapel Bethel.

O gofio'r gweithgarwch cerddorol nodedig hyn nid syndod felly canfod bod côr cymysg wedi ei sefydlu'n ddiweddar yn y pentref, ac yn barod wedi rhoddi ei berfformiad cyhoeddus cyntaf i'r ardal mewn Cymanfa Ganu nos Sul diwethaf.

Canlyniad uniongyrchol i atgyfodi rai blynyddoedd yn ôl, un arall o draddodiadau'r ardal, sef yr Eisteddfod Leol, yw'r côr hwn. Erbyn yr Eisteddfod ddiwethaf, fis Chwefror eleni, ffurfiwyd dau gôr i gystadlu yn y gystadleuaeth gorawli, un o'r rhan uchaf y pentref, a'r llall o'r rhan isaf. Wedi'r Eisteddfod

daeth y ddau gôr ynghyd dan arweiniad Mr Robin Jones i ffurfio côr Cadnant. Y mae'r arweinydd yn hen law ar arwain corau. Cyn iddo symud yma i Fethel i fyw beth amser yn ôl, bu'n arwain yn llwyddiannus iawn, gôr llewyrchus pensioynwyr Abergele, a ystyrir ymysg y goreuon yn y maes.

Cyfeilyddes ddeheuig côr Cadnant yw Mrs Beti Owen, Crond yn Awel, Bethel, a hithau hefyd yw'r Ysgrifenyddes. Y Llywydd yw Mr Thomas Alun Jones, Eithinog a'r Trysorydd yw Mr Ron Mercer, Roslyn.

Er mai ifanc iawn yw'r côr ar hyn o bryd, y mae dros ddeg ar hugain yn perthyn iddo yn barod, ac y mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r awyrgylch gartrefol yn yr ymarferiadau bob nos Sul yn festri Capel Bethel.

Hyfryd yw gweld un o hen arferion Bethel a Llanddeiniolen yn gadarn ar ei draed unwaith eto, ac yn wir gydag arweinydd mor hwyliog a galluog, ac aelodau mor frwdfrydig a ffyddlon y mae'r rhagolygon gogyfer â'r dyfodol yn eithriadol o addawol.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd

Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

EDRYCH DRWY'R FFENESTR I'R GORFFENNOL

WRTH adnewyddu rhan o brif adeilad ffermdy hynafol Prysgol, daeth y perchennog, Mr W.J. Williams ar draws ffenestr fechan wedi ei chau i mewn yn y waliau trwchus (mae'r waliau allanol yn bum troedfedd o drwch). Nid oedd arwydd o'r ffenestr hon i'w weld o du allan nac o du mewn y tŷ. Mae'r ffrâm goed yno heddiw fel ag yr oedd yn wreiddiol, ac wedi ei gosod rhwng dau lawr y tŷ, sy'n awgrymu mai ffenestr i oleuo'r grisïau ydoedd yn yr hen amser; ond does dim grisïau yn y rhan hon o'r tŷ heddiw. Mae pren canol y ffenestr yn chwe-ochrog, ac y mae tyllau sgwâr yn y ffrâm i dderbyn y bariau pren a ddaliai'r gwydr. Er hynny, nid oes dystiolaeth ar gael i brofi fod y ffenestr wedi ei gwydro ar unrhyw adeg. Digon tebyg nad oedd, oherwydd er bod y ffenestr wedi bod yn agored i'r tywydd gydol wytnosau olaf mis Mai (a hwnnw'n dywydd gwlyb a gwyntog), ni ddaeth unrhyw ddŵr i mewn i'r tŷ yn ôl dystiolaeth Mr a Mrs Williams. Mae'n amlwg fod y pensaer gwreiddiol wedi sylweddoli fod y rhan hon o'r tŷ yng nghysgod y tywydd.

Y cwestiwn sy'n aros, wrth gwrs, yw pa mor hen yw'r ffenestr? I geisio darganfod yr ateb, rhaid yn gyntaf geisio olrhain beth o hanes y cartref hynafol hwn.

Mae'n sicr fod tŷ wedi bod ar y safle hwn ers tua chwe chant o flynyddoedd, oherwydd ceir cyfeiriad at le o'r enw 'Llanfair Priscoel' yn achosion llys mor gynna â 1348. Dyma drefgordd a unwyd yn ddiweddarach a threfgordd Y Rug i ffurfio plwyf Llanrug. Gwyddys i sicrwydd fod y tŷ a'r fferm yn perthyn i Stad y Faenol mor bell yn ôl â 1698, oherwydd roedd y Fonesig Margaret, gweddwr Barwnig Syr William Williams (3ydd barwnig y Faenol) yn byw yno. Bu hi farw yn y Prysgol yn ystod y flwyddyn honno. O bosibl mai tua'r cyfnod hwn yr adeiladwyd y simnai ganolog yn y tŷ. Roedd simnai fawr ac amryw o lefydd tân yn arwydd o gyfoeth ac o safle gymdeithasol y perchennog, ond roedd treth wedi ei rhoi ar simneiau yn ystod y ganrif flaenorol, ac ni ddiddymwyd y dreth hyd 1689. Naturiol, felly oedd i deuluoedd cefnog adeiladu simneiau yn weddol fuan ar ôl diddymu'r trethi hyn. Gosodwyd grisïau troellog, crwn rhwng y simnai fawr ganolog a'r wal orllewinol, ac o bosibl mai dyma'r pryd y gosodwyd y ffenestr yn ei lle i oleuo'r grisïau tywyll. Gellir bod yn weddol sicr felly, fod ffrâm coed y ffenestr rhwng 250 a 300 o flynyddoedd oed. Mae'r grisïau gwreiddiol wedi hen ddiplannu, ond mae'r wal yn grwm yma sy'n awgrymu mai grisïau ar dro oeddynt.

Tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr adeiladwyd adain ddwyreiniol y tŷ, ac o bosibl mai dyma'r pryd y symudwyd y grisïau o'r safle wreiddiol ac adeiladu rhai newydd yng nghongl

dde-ddwyreiniol y prif adeilad. Mae'r grisïau rheini'n bod heddiw, ond bu'n rhaid disgwyl hyd fis Mai eleni i ail-ddarganfod safle'r hen risïau a'r ffenestr guddiedig.

Anodd iawn yw ceisio darganfod pwy fu'n gyfrifol am y gwaith adeiladu a'r holl ail-adeiladu ac adnewyddu yn y tŷ, ond gellir darganfod enwau rhai o'r teuluoedd a fu'n byw yma drwy astudio cofrestrau plwyf a rhestri threthi tir a thenantiaid Stad y Faenol.

Nodwyd eisoes fod fferm y Prysgol yn rhan o Stad y Faenol. Bu farw Syr William Williams, y perchennog yn 1696, a'i weddw, ddwy flynedd yn ddiweddarach yn y Prysgol. Nid oedd ganddynt blant. Roedd ei ewyllys yn un anghyffredin. Gadawodd hawl am oes yn y stad i ddau gyfaill—Syr Bouchier Wrey a'i frawd y Parch Chichester Wrey. Ar eu marwolaeth hwy, byddai'r stad yn cael ei throsglwyddo i'r Goron; ond fe'i rhoddwyd i John Smith, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a'i ddisgynyddion. Ni ddaeth y stad i ddwylo teulu'r Smithiaid hyd 1756 pan fu farw'r Parch Chichester Wrey. Yn y trigain mlynedd er pan fu farw Syr William Williams, roedd y stad wedi dirywio'n arw. Bu'n rhaid i'r Smithiaid fynd ati i ail-drefnu'r stad. Gwnaethpwyd arolwg o'r stad ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ond nid oedd y Prisiwyr yn rhoi golwg calonogol iawn: "On most of Mr Smith's estates . . . the buildings are very old and not proper for the occupation of them . . . It will be advisable for Mr Smith to change his tenant." Tybed a oedd Prysgol yn un o'r ffermydd hyn a esgeuluswyd mor ddifrifol? Efallai nad oedd, oherwydd yn 1798 y tenant oedd gŵr o'r enw Evan



Rhan o ffermdy'r Prysgol. Mae olion yr hen laethdy i'w weld o dan y ffenestr.


William.

Rhaid cofio fod llwybrau'r porthmyn yn pasio heibio i fferm y Prysgol, a gyroedd o wartheg o ardal Clynnog yn cael eu cerdded drwy'r Bontnewydd a Chaeathro ac ymlaen i Bontrug a Phentir. Naturiol felly oedd i borthmyn fyw ar ffermydd ar gyrion y llwybrau hyn. Rhaid oedd i bob porthmon gael trwydded i borthmona gan Lys y Chwarter Sesiwn, ac yr oeddynt yn cael eu cyfrif yn bobl gyfrifol, ac amryw ohonynt yn gweithredu fel bancwyr. Disgrifir Evan William, tenant Prysgol, fel "porthmon" a "yeoman". Fe'i ganed yn 1732 a bu farw yn 1816; felly mae'n debyg ei fod yn un o'r rhai olaf yn yr ardal i arfer y grefft o borthmona. Yr oedd fferm Prysgol y pryd hwnnw yn cynnwys tiroedd Cae'r Garth a Chae Hoedyn, ac felly digon posibl fod angen gŵr cyfrifol i ofalu am fferm mor fawr. Mae'n weddol sicr felly fod y grisïau a'r ffenestr yn cael eu defnyddio gan Evan William a'i deulu.


Erbyn 1815, y tenant oedd gŵr o'r

enw Humphrey Lloyd neu Hwmffra Llwyd. Mae dystiolaeth ei fod yntau hefyd yn ŵr cyfrifol fel ei ragflaenydd. Roedd yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Llanrug, yn mynychu Ysgol Sul Capel Lôn Glai, Pontrug, ac ef fu'n gyfrifol am ofyn tir i adeiladu Capel Caeathro gan stad Glangwna. Roedd yn un o flaenoriaid cyntaf Caeathro, ac ef oedd ysgrifennydd cyntaf Cymanfa Ysgolion Caernarfon yn 1813. Ai tybed yn ystod ei oes ef y symudwyd y grisïau i ochr dde-ddwyreiniol y tŷ, ynteu yn ystod y cyfnod pan fu'r enwog William Owen yn byw yno? Os oes unrhyw un o ddisgynyddion y teuluoedd hyn yn gwybod, neu all roi unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r tŷ, byddai'n ddiddorol iawn cael gwybod.

Mae un cyd-ddigwyddiad ynglŷn â holl hanes y ffenestr yn y grisïau—dolen gyswllt rhwng y perchennog cyntaf, pryd y gosodwyd y ffenestr; a'r perchennog presennol pan ddaeth y ffenestr i olau dydd unwaith eto—“Williams' yw cyfenw'r ddau.



Prysgol—drwy'r canrifoedd: Darlun dychmygol o'r tŷ yn y Canol Oesoedd.



Llun dychmygol o'r tŷ fel ag yr oedd yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

RAS NOFIO LLYN PADARN



Stephen Dockery, y buddugwr yn dod allan o'r dŵr ar ddiwedd y ras.



Yvonne Carter, enillydd ras y genethod iau, yn siarad â swyddog.



Enillydd adran y merched, Karen Toole.



Rhan o'r dyfa ar lan y llyn yn gwyllo'r gweithgareddau.



Aelodau cangen Llanberis o Gadlanciau Sant Ioan yn parataoi i gario un o'r nofwyr i'r ambiwlans. Y cadlanciau oedd yn gyfrifol am gymorth cyntaf.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 20 eleni, mae'n debyg i Llyn Padarn weld mwy o dorf ar ei lannau nag a welwyd ers cystadlaethau rhwyfo Chwaraeon y Gymanwlad a gynhaliwyd yma ym 1958. Ond y tro hwn, nofwyr ac nid rhwyfwyr oedd yn denu'r sylw. Dyma'r tro cyntaf erioed yn hanes yr ardal i ras nofio gael ei threfnu ar hyd Llyn Padarn. Clwb Nofio Pellter Maith Howebridge, Marlins ar y cyd â Bryn Parry ar ran Pwyllgor Carnifal Llanberis a fu'n gyfrifol am drefnu'r gystadleuaeth, ac y maent i'w llongyfarch am fenter o'r fath. Dim ond dwy ras arall o'r fath sy'n cael eu cynnal drwy Gymru gyfan eleni; sef Ras y Mwmblys, Abertawe, fis Gorffennaf, a Ras Llyn Tegid, Y Bala, ddiwedd fis Awst. Wedi llwyddiant y ras eleni, gobeithir cynnal Ras Nofio Llyn Padarn yn flynyddol o hyn ymlaen, gan fawr obeithio y daw'n gystadleuaeth bwysig ar y Calendr Nofio Pellter Maith.

Yn naturiol, 'roedd llawer o waith trefnu ar gystadleuaeth o'r fath. 'Roedd angen pob math o baratodau ymlaen llaw, a llawer o waith gweinyddu, gan gynnwys timau cymorth cyntaf, beirniaid ras, trefnwyr lluniaeth a chychwyr profiadol. 'Roedd 3ydd Bataliwn y Royal Welsh Fusiliers yn gyfrifol am gysylltiadau radio rhwng cwch a chwch a rhwng cwch a glan. Oherwydd rheolau caeth Cymdeithas Brydeinig Nofio Pellter Maith, 'roedd yn rhaid cael canŵ i ddilyn pob un nofiwr rhag anffawd. Pe bai unrhyw ddamwain yn digwydd, byddai'n rhaid i'r person yn y canŵ roi un chwibaniad hir ar ei chwiban a dal ei rwyf yn syth i'r awyr fel arwydd i'r cychod achub.

Yn ystod y ras yn naturiol, nid oedd hawl gan y nofwyr i dderbyn unrhyw gymorth, ond 'roedd hawl ganddynt i dderbyn bwyd neu ddiod ar yr amod nad oedd yn alcohol neu'n gyffur o unrhyw fath.

'Roedd dwy ras yn cael eu cynnal: ras i rai iau yn y bore, sef o Lanberis i Benllyn, pellter o ddwy filltir, a ras i'r rhai hŷn yn y prawn; o Lanberis i Benllyn ac yn ôl i Lanberis, pellter o bedair milltir. Yn ogystal â gwobrau am ennill y ddwy ras, 'roedd hefyd wobrau i'r dyn cyntaf a'r bachgen cyntaf, i'r ferch gyntaf ac i'r eneth gyntaf; ac un wobr i'r perfformiad tîm gorau.

Stephen Dockery, deunaw oed o Glwb Nofio Warrington Dolphins oedd y cyntaf mewn amser o 75 munud a 41 eiliad. Mae eisoes yn nofiwr profiadol, ac wedi nofio'r Sianel a Llyn Windermere. Yn gyntaf yn adran y merched daeth Karen Toole o Glwb Nofio Darlington. Dim ond dwy ar bymtheg oed yw, ond mae eisoes wedi cystadlu ar Llyn

Tegid a Llyn Windermere. Nofiodd hi'r bedair milltir mewn amser o 76 munud a 25 eiliad.

Ian Ainsworth, pedair ar ddeg oed o Glwb Nofio Warrington Dolphins oedd y cyntaf yn adran y bechgyn mewn amser o 53 munud a 21 eiliad. Yvonne Carter o Glwb Nofio Wakefield oedd enillydd y ras i enethod iau. Pedair ar ddeg oed yw Yvonne hefyd, ac fe nofiodd o Lanberis i Benllyn yn gynt na'r bechgyn, gan orffen mewn amser o 49 munud a 44 eiliad.

Yr unig rai o Gymru i gystadlu oedd Leigh Bennett o Aberdâr a ddaeth yn drydydd yn adran y bechgyn iau, a John Baker o Aberafon a ddaeth yn ail yn adran y dynion hŷn. Kay Daniels o Abertawe oedd yr unig ferch o Gymru i gystadlu, a daeth hi'n bedwerydd yn adran y merched.

Diolch i Brian Wakeham am luniau 1, 2 a 5, ac i Arwyn Roberts am luniau 3 a 4.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug


Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

NYRSIO – Ar ôl astudio am ddwy flynedd yn Ysbyty Môn ac Arfon mae Jane, merch Mr a Mrs John Rhys Owen, Dol Elidir wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr arholiau terfynol. Mae hi'n awr yn E.S.N. Da iawn Jane, ac hefyd o wybod am eich gwên ddymunol i'r cleifion bob amser. Mae hi'n fawr ei pharch gan y llw cleifion y bu'n gofalu amdanynt mor dyner a charedig.

CYMANFA BREGETHU – Cynhaliwyd y Gymanfa Bregethu Flynyddol yn Nant Padarn ar yr ail Sul o'r mis, a gwasanaethwyd gan y Parch Ieuan L. Jones, Abertawe, a'r Athro y Doctor Tudur Jones, Bangor. Mwynhawyd y pregethu grymus gan aelodau nod o Nant Padarn yn unig ond o'r oll o eglwysy'r ardal.

LLONGYFARCHIADAU – Da iawn – blant Ysgol Dolbadarn – ar eich llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Ennill gyda'r Parti Cerdd Dant, ac hefyd gyda'r Parti Unsain. Roedd llawer o'r ardalwyr wedi eu clywed yn canu yng nghapel Gorphwysfa ddiwrnod agor Canolfan T. Rowland Hughes, a phawb yn proffwydo – "wel – dyma oreuon Eisteddfod yr Urdd" – ac felly y bu hi ynte. Ardderchog iawn wir, cawn glywed hanesion tebyg eto y flwyddyn nesaf ym Mhwlheli gobeithiwn.

Llongyfarchiadau i Rhian, merch Mr a Mrs Alwyn Owen, Stryd Siarlot, hithau wedi ennill ar ganu yn Eisteddfod yr Urdd. Campus iawn Rhian, a dymuniadau gorau i chwi yn y dyfodol.



Parti Ysgol Dolbadarn gyda'r darian.



Rhian Owen

UNDEB Y MAMAU – Ar Fehefin 2

cynhaliwyd cyfarfod misol Undeb y Mamau gyda'r Parch Ganon Alun Jones yn llywyddu. Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan y Parch Morrhous o Fiwmares a diolchwyd iddo gan Miss Catherine Gillespie a Mrs Nellie Roberts o Nant Peris. Pasiwyd cydymdeimlad ag un o'r aelodau, sef Mrs Jean Roberts, Stryd Goodman ar golli ei brawd.

CASGLIAD – Casglwyd £28 gan Miss Catherine Gillespie tuag at Genhadaeth y Morwyr.

ANRHYDEDD – Derbyniodd Trefor Ellis, priod Nora Ellis (gynt Nora Hughes, 21 Maes Padarn) anrhydedd arbennig gan Lywodraeth Guyana am ei astudiaeth a'i flynyddoedd o wasanaeth i'r diwydiant sigwr yn y wlad honno. Ar ddechrau'r flwyddyn hon derbyniodd yr anrhydedd o O.B.E. gan y Frenhines Elizabeth. Mae y llw cyfeillion sydd gan Nora a Trefor yn Llanberis a Deiniolen (ardal enedigol Trefor) yn falch iawn o ddeall am yr anrhydeddau yma.

PRIODAS – Veronica a Hugh – Ar Fehefin 6 yng Nghapel Coch, gyda'r gweinidog y Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu a Mr Hugh Peris Pritchard wrth yr organ, priodwyd Veronica, merch Mr a Mrs E.G. Pritchard, 38 Maes Padarn, a Hugh Geraint, mab Mrs Owen a'r diweddar R. Owen, Bryn Gwylan, Waunfawr. Daeth 54 o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r ddeuddyn yng Ngwesty Bron Eryri.

Bydd Veronica a'i phriod yn ymgartrefu yn Stad Tŷ Hen, Waunfawr a dymunir iddynt hwythau hefyd bob bendith a hir oes. Dymuna'r ddau ddiolch i bawb am eu hanrhegion a dymuniadau da.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod Ebrill cawsom y pleser o groesawu'r Parch Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug, a ddangosodd ei ddawn arbennig yn trefnu blodau, a chafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni.

Ein gwraig wadd ym mis Mai oedd Miss Ellen Owen, cyn-ysgrifenyddes Ffederasiwn Gwynedd, a chawsom drafodaeth ar y penderfyniadau oedd yn codi yn y Cyfarfod Blynnyddol yn yr Albert Hall, pryd y bydd Mrs E. Howdle yn cynrychioli Sefydliad Llanberis. Yna, cyflwynodd Miss Ellen Owen ei chwaer, Miss Mair Owen, a ddangosodd sleidiau i ni o rannau o Wynedd.

Cydymdeimlwyd â Mrs A.M. Evans a Mrs Dwynwen Roberts yn eu profedigaeth o golli eu brawd yn Wrecsam, ac anfonwyd ein cyfarchion i Mrs Robert Morris, Mrs Maria Pritchard a Mrs Dilys Roberts yn eu gwaeledd a dymunwyd adferiad buan iddynt.

YSGOL DOLBADARN – Prysus iawn

fu partion canu a cherdd dant yr ysgol yn ddiweddar. Ar Fai 20 ymwelodd Mr Richard Morris Jones, a thim ffilmio'r BBC â'r ysgol i ddarparu cyfraniad y Parti Cerdd Dant ar gyfer y rhag-hysbysiad o Ddarlith Goffa T. Rowland Hughes. Clywyd y plant yn canu ar y rhaglen 'Heddiw' ar nos Wener, Mai 22.

Ar ddydd Sadwrn Mai 23 canodd y parti yn narlith Goffa T. Rowland Hughes yng Nghapel Gorffwysfa. Canwyd un o gerddi mwyaf teimladwy o waith y bardd sef Y Goeden Afalau ar yr alaw

Canodd Lisa Rudkin a Jane Parry y ddeuawd boblogaidd sef 'Dwy law yn erfyn'.

Yna, ar Fai 28 aeth llond bws o blant gyda rhai o'r athrawon i lawr i Gastellnewydd Emlyn i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Llwyddiant ysgubol fu hanes y plant canys cipiwyd y wobr gyntaf gan y Parti Cerdd Dant dan 12 oed a'r Parti Unsain dan 12 oed. Dyma'r tro cyntaf yn hanes Adran yr Ysgol i ennill gwobr gyntaf yn y Genedlaethol. Llongyfarchiadau i'r plant am yr orchest hon, ac hefyd i Mrs Eirlys Pierce a fu'n eu hyfforddi yn ddi-flino am wythnosau. Mae tarian goffa loan Dwyrdd, Cwpan Goffa Mary Jones, a Chwpan Pant y Fedwen, ym meddiant Ysgol Dolbadarn am flwyddyn.

Ar brynhawn Gwener, Mehefin 5 cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol yn y cae chwarae. Ar ôl cystadlu brwd Peris a orfu o hanner marc, gyda Padarn yn ail, a Seiont yn drydydd.

Ar brynhawn Mercher, Mehefin 10 aeth rhai o'r plant i Ysgol Brynrefail, Llanrug i gystadlu ym mabolgampau'r Urdd. Bu'r plant yn llwyddiannus yn y mabolgampau a daeth tarian pencampwriaeth y cylch i Ysgol Dolbadarn unwaith yn rhagor.

Yn ddiweddar bu Tim Pêl-droed a Thim Pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu mewn twrnamant dan ofal yr Urdd. Daeth y tim pêl-droed i'r rownd cyn-derfynol ond collwyd i dîm o Ysgol Maelgwn, Cyffordd Llandudno. Colli wnaeth y tim pêl-rwyd i Ysgol Llanllyfni.

Ar ddydd Gwener, Mehefin 12 aeth 70 o blant o'r Adran Gynradd ar daith Addysgiadol i'r Gloddfa Ganol, Blaenau Ffestiniog ac i Barc Eirias Bae Colwyn. Cafwyd diwrnod diddorol dros ben.

Ar brynhawn Mawrth, Mehefin 16 aeth rhai o blant o Adran y Babanod i Sw Bae Colwyn. Mwynhawyd yr ymweliad yn fawr.

Ar ddiwedd Mehefin aeth plant Adran y Babanod a'r Adran Iau ar ymweliad â Sw Caer. Bu'r babanod ieuengaf yn Ninas Dinlle a chafodd plant safonau 3 a 4 ymweld â Llundain.

Carai'r prifathro ddiolch yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at ymweliad plant yr ysgol â'r Eisteddfod Genedlaethol yng

Nghastellnewydd Emlyn. Mynegodd ei falchder yn y ffaith fod y plant wedi cyfiawnhau ffydd pobl y fro ynddynt a'u bod wedi dod a chlod i'r ardal.

ALUN YN GALW – Mae llawer ohonom yn cael mwynhad mawr wrth wrando ar y rhaglen 'Alun yn Galw', ac ychydig ddyddiau'n ôl cafodd amryw o'r ardalwyr bleser annisgwyl wrth wrando ar Alun yn sgwrsio â Sylvia o Singapore. Merch Bob a Hilda o Dai'r Vaynol yw Sylvia ac erbyn hyn yn ôl ei stori i ni y bopre hwnnw mai wedi trafaelio llawer. Roedd yn sgwrsio mor hamddenol a chartrefol, syndod ydoedd ei bod yn siarad mor glir a hithau mor bell oddi wrthym. Nid yw Sylvia wedi newid dim dybiwn i – (a diolch am hynny) mae mor siriol a gwreiddiol yn ei dywediadau ac mor barod ei hatebion. Bydd yn ôl yng Nghymru ymhen ychydig wythnosau – croeso iddi hi a'i theulu bach. Digon hawdd deall wrth wrando ar ei sgwrs fod ei theulu yn Llanbêr yn golygu llawer iawn iddi. Brysied y dydd y bydd yn cyrraedd yma i groeso ei chyfeillion a'i theulu.

GŴYL GORAWL ERYRI – Estynnir llongyfarchiadau i 35 o blant Eglwys Sant Padarn ar eu llwyddiant yn yr arholiadau eglwysig: **Dan 4:** Elaine Bee, Darren Jones, Ifan Aneuryn Foulkes, Gerallt Williams, Dylan Jones, Gavin Carr. **Dan 5:** Philip Bourne, Ken Jones, Colin Michael Ellis, Dylan Oswyn Williams, Gavin Hughes. **Dan 6:** Olwen Harris, Llinos Wyn Jones, Carys Wyn Owen, Louise Elizabeth Ellis, Rhian Rhagfyr Roberts, Richard Stephen Edwards, John Elwyn Foulkes, Shane Wyn Price, Dylan Davies, Dylan Jones, Rhian Wyn Owen. **Dan 8:** Colin Griffiths, Kevin Owen Edwards, Ian Lloyd Hughes, Lliffon Arwyn Foulkes, Marc Christopher Bourne, Marc Ellis, Nia Wyn Roberts, Tracey Ann Fleming, Michelle Diane Willis, Lisa Ellen Jones. **Dan 10:** Cheryl Edwards, Nia Williams, Gareth Wyn Owen. **Yr arholiadau ysgrifenedig** – Allison Edwards, Belinda Griffith, Catrin Lennon, Ian Williams, Wayne Jones, Dewi Harris, Darren Price, Tony Jones, David Ian Edwards, Huw Morris.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mrs Hilda Wyn Williams, Vaynol Cottage ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati tra'n yr ysbyty.

Hefyd, dymuna chwiorydd y diweddar Harry Pritchard a fu farw yn yr ysbyty yn Wrecsam ddiolch i bawb o'r ardalwyr am eu cyfarchion a'u cyfraniadau hael. Cyflwynwyd y rhoddion ariannol i'r Uned Arennau, Ysbyty Glandwyd, lle y bu eu diweddar frawd yn derbyn triniaeth arbennig. Diolchiadau gan Mrs Jean Roberts, Mrs Dwynwen Roberts, Mrs Annie Mary Evans a Miss Catherine Pritchard (ei bedair chwaer).

DIOLCHIADAU – Dymuna Mrs Maria Pritchard, 4 Rhes y Faenol ddiolch o galon i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am y llw o anrhegion a chardiau a dderbyniodd tra'n yr ysbyty ac wedi dod gartref. Diolch yn fawr hefyd i Nyrs Beth Jones am ei hymweladau cyson, ac i staff Ward Lawfeddygol Uchaf Ysbyty Môn ac Arfon am bob gofal.

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

EGLWYS EFENGYLAIDD GWYRFAI

Pregethwyr Mis Awst 1981

Bore Sul, 10.30 yn Festri Moreia, Groeslon Waunfawr.

Awst 2: Y Parch Dewi Tudur, Rhosllanerchrugog

Awst 9: Y Parch John West, Llanfechell

Awst 16: Y Parch Robert Roberts, BSc, BD, Trefriw.

Awst 23: Mr Robert Wyn, Llanllyfni.

Awst 30: Y Parch John Roberts, BA, BD, Glyn Ceiriog.

LLANBERIS (Parhad)

CERDDOROL - Yn yr Academi Gerddorol yn Llundain mae Susan Bullock, B.Mus., L.R.A.M., wyres Mr a Mrs Ben Jones, Maes Padarn yn astudio. Hyd yn hyn mae hi wedi cael gyrfa lwyddiannus iawn. Enillodd wobwr Lieder yr Academi ac hefyd Ysgoloriaeth yr Iarlles Munster am £1,500. Mae amser prysur iawn o'i blaen y misoedd nesaf yma. Bydd yn canu yn y Queen Elizabeth Hall yng Ngorffennaf, yn y Royal Festival Hall ym mis Medi, ac yn y Wigmore Hall ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Hawdd deall y gall cerddorol yma sydd gan Susan. Onid yw'r elfen gerddorol yn rhedeg yn gryf yn y teulu yma? Nid oedd neb yn medru canu gystal â mam pan oedd hi'n ifanc ac yn ei bri. Mae'r teulu wedi cysylltu eu hunain â'r canu corawl, ac â'r Seindorf lleol ar hyd y blynyddoedd. Dymunir i Susan bob llwyddiant yn ei byd cerddorol.

LLENOR IFANC - Yn y Brifysgol yn Aberystwyth yn astudio'r Gymraeg mae Rhian Cadwaladr, merch Mr a Mrs Bryn Parry, Mafeking. Daeth ei gallu i'r amwlg yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth am y 'goron'. Da iawn Rhian - hwyrach y cewch well lwc y tro nesaf.

DYRCHAFIAD - Er gadael Ysgol Brynrefail Llanrug y mae Alwyn Peris, mab hynaf Megan a Iorwerth Williams, Lôn Tŷ Du wedi bod yn gwasanaethu gyda'r Adran Amaethyddol

yng Nghaernarfon. Rhai wythnosau'n ôl derbyniodd ddychafiad yn ei waith a'i symud i'r Gwasanaeth Sifil Adran Gyllid yng Nghaerdydd. Dymunir iddo bob llwyddiant yn ei gylch newydd.



ARWEL A'I IÂR - Bachgen 14 oed yw Arwel, mab ieuengaf Carys a Tecwyn Hughes, Stryd Yankee, ac mae ganddo ddiddordebau dihafal. Mae ei fyd o fore hyd hwyr - (oddi gerth ei oriau ysgol wrth gwrs) gyda'i adar a'i anifeiliaid. Ar hyn o bryd mae ganddo gi, bwji, poli parot, hamster, cwningod, hwyaden a iear. Mae gan Arwel rhyw ddawn arbennig wrth ymdrin â'r cyfan. Bu'n mynd â'r cwningod i'r sioeau lleol ac mae wedi ennill amryw o wobrau, ond eleni aeth ag un o'r iear i Sioe Gogledd Cymru i Gaernarfon, ac yn y Dosbarth

4 enillodd 'Hilda' yr ail wobwr allan o un ar ddeg o iear eraill. Tair o'r brid 'Silk' yw Hilda yr iâr a welwch yn y darlun gydag Arwel. Da iawn Arwel - pwy a wŷr hwyrach y byddwch yn ffermwyr adnabyddus rhyw ddydd ac yn berchennog llawer o anifeiliaid gwerthfawr a'r cyfan wedi datblygu o'r hobi yma - gofalu mor dyner am greaduriaid bach diniwed.

MARW - Teulu diddan o naw o blant oedd gan Mr a Mrs Richard William Pritchard, Stryd Newton, ond erbyn heddiw nid yn unig y tad a'r fam sydd wedi ein gadael, ond y pum mab hefyd. Rai wythnosau'n ôl bu farw Harry yr ieuengaf. Bu'n gweithio yn Chwargol Dinorwig wedi gadael yr ysgol ac yna tua 34 mlynedd yn ôl aeth i Wrecsam lle y priododd a gwneud ei gartref a magu teulu.

Bachgen hynod o ddymunol oedd Harry, gyda gwên ddireidus ganddo bob amser, ac yn hoff o dynnu coes. Am mai ef oedd y bachgen ieuengaf roedd yn dipyn o ffefryn gan ei bedair chwaer hyd yn oed wedi iddo briodi, rhoed croeso cynnes iawn iddo ef a'i deulu. Bu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Glandclwyd beth amser yn ôl a chafodd wellhad am gyfnod - ond yn sydyn dychwelodd i un o ysbytai Wrecsam lle y bu farw. Cyflwynodd ei weddw y rhoddion ariannol a dderbyniodd ar achlysur ei farw i'r Adran Uned Arennau, Ysbyty Glandclwyd.

Cydymdeimlir â'r pedair chwaer a'r teuluoedd sydd yn byw yn yr ardal sef, Mrs Jean Roberts, Mrs Annie Mary Evans, Mrs Dwyndyn Roberts a Miss Catherine Pritchard sydd yn byw yn Llundain ers blynyddoedd.

YN YR YSBYTY - Yn Ysbyty Môn ac Arfon y mae Dafydd Roberts, Sŵn-y-Gwynt, hefyd Robert John Roberts, 9 Stryd yr Wyddfa. Yn Ysbyty Eryri, Caernarfon mae Mrs Lena Roberts, Llansanffraid yn aros o hyd ar ôl torri ei choes.

Rai dyddiau'n ôl cipiwyd Mrs Dorothy Peris Jones, Maes Eilian i Ysbyty Môn ac Arfon.

Hyderwn y bydd y cleifion oll gartre yn fuan iawn.

CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU - Dydd Sadwrn Mehefin 20 ordeiniwyd a sefydlwyd Gwynfor Williams, BEM., YH., yn weinidog ar Eglwys Annibynnol Berea, Gaerwen a Cana Llanddaniel, Ynys Môn. Cyflawnwyd yr ordeinio a'r sefydlu gan y Parch Brifathro R. Tudur Jones, D. Phil., DD., Coleg Bala Bangor, a chyflwynwyd yr anerchiadau cyflwyno gan y Parch Huw John Hughes, B.Ed., Llanberis, y Parch Lyn Cleaver, Llangefni, y Parch Marcus Robinson, B.D., Llanberis, y Parch W.R. Williams, Felinheli, y Parch T.E. Williams, Cemaes.

Cyflwynwyd yr anerchiadau croeso gan Mr W. Hugh Williams ar ran Eglwys Berea a Cana, y Parch Emlyn Jones, B.A. a Mr John Griffiths



ar ran yr Eglwys Rhyddion. Ar ran Eglwys Sant Mihangel y Parch Iorwerth Thomas, B.Sc. ac ar ran Eglwys Sant Deiniol y Parch R.T. Jones. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Emrys Jones gyda'r Parch A.O. Roberts, Gaerwen yn ymgymryd â'r rhannau arweiniol.)

Estynnwyd croeso cynnes iawn i'r llu gyfeillion a ddaeth yno o Lanberis i ddymuno'n dda i Gwynfor ar ei sefydlu yn weinidog, ac ar eu rhan cyflwynodd y Parch Marcus Robinson anrheg iddo 'Llestri Cymun y Claf'.

Cynhaliwyd y gwasanaeth hwyrol - sef oedfa bregethu gyda'r Parch Gwynfor Williams yn llywyddu a phregethwyd gan y Parch Brifathro R. Tudur Jones, D.Phil., D.D., Coleg Bala Bangor.

Roedd gwledd wedi ei darparu gan chwiriwyd yr eglwys ar gyfer y cyfeillion o bell ac agos a gwir fwynhawyd y danteithion o bob math.

MARW - Ar ôl tridiau yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw Hugh Owen, 20 Dol Eilian. Brodor o Drefor ydoedd. Yn fab Llwyn-y-Eithyn ac wedi gweithio hyd ei ymddolliad ar staff Chwael Trevor. Mae ef a'i briod wedi byw yn yr ardal am tua 12 mlynedd. Cydymdeimlir â'i weddw, y mab a'r ferch hefyd y teulu yn eu colled.

Yn sydyn yn ei chartref Orme Manor, ar Fehefin 23 bu farw Dorothy, merch y diweddar Mr a Mrs Michael Thomas, Bryn Aethwy. Roedd yn 64 oed ac wedi gwasanaethu fel nyrs cyn dychwelyd gartre. Fel ei chwaer a'i brawd aelod ffyddlon ym Mhreswylfa ydoedd. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf a'r teulu yn eu galar.

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf daeth y wybodaeth am farwolaeth sydyn Roberts Buddug Williams yn Biwmares yn 52 mlynedd oed. Merch ydoedd i'r diweddar Mr a Mrs John H. Roberts, Stryd y dŵr. Nid oedd Roberta ond 5 oed pan laddwyd ei thad yn y chwael, a mawr fu gofal y fam yr adeg honno gyda thri o blant bach i'w magu - a Roberts oedd yr hynaf o'r tri. Gwasanaethu mewn cartref plant ym Miwmares yr oedd Roberta, a bu farw wrth ei gwaith yn y cartref. Estynnir cydymdeimlad â'i

phriod a'i thri phlentyn, hefyd ei chwaer a'i brawd, ei hewythr Hugh Roberts a'i ferch sydd yn byw yn Stryd y Ffynnon a'r teulu i gyd. Bu'r gwasanaeth claddu yn y Losgfa ym Mangor bnawn Mawrth Mehefin 23.

PRIODAS RUDDER - Llongyfarchiadau calon i Mr a Mrs W.J. Roberts, Rhianfa, (Coed) ar gyrraedd eu priodas ruddem ar Orffennaf 5. Dymuniadau gorau oddi wrth y plant, y teulu i gyd, y cymdogion a'r llu cyfeillion yn yr ardd.

Y RAS NOFIO - Ar Fehefin 20 cynhaliwyd y Ras Nofio gyntaf erioed ar Lyn Padarn. Bu hanner cant o nofwyr yn cystadlu, ond gorfu i 15 ohonynt roi fyny oherwydd oerni'r dŵr. Roedd y nofwyr yn dod o bob rhan o Brydain Fawr. Dywedodd y trefnydd Bryn Parry fod yr ymdrech wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae gobeithion y bydd ras gyffelyb y flwyddyn nesaf.

YSGOL FEITHRIN - I ddathlu pen-blwydd Mudiad Ysgolion Meithrin Cymru yn ddeg oed yn ystod yr Wythnos Wyl trefnod Mudiad Arfon berfformiadau gan Theatr Bara Caws yng Nghaernarfon. Cafodd y mamau a'r plant berfformiad difyr iawn. Nos Ferch (Mehefin 10) cynhaliwyd Bingo yn y ganolfan. Cafwyd elw o £36.00. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gynorthwyodd ac hefyd i Willie Elyn Roberts am alw'r rhifau unwaith eto.

Dydd Mercher, Mehefin 17 aeth plant yr ysgol am drip ar y trê bach y llyn. Er bod yn oer iawn yno roedd y plant wedi mwynhau eu hunain.

Mae'r Ysgol Feithrin yn gobeithio dechrau grŵp Mam a'i Phlentyn i blant o dan ddwy a hanner mlynedd oed ym mis Medi. I rhywun sydd â diddordeb bydd posteri yn y clinic a'r siopau nes ymlaen.

GRŴP CHWARAE - Nos Lun, Mehefin 22 cyfarfu rhai o rieni'r ardal yng Ngwesty'r Grosvenor i geisio rhin a thrafod y posibilrwydd o gael rhyw ddiddordebau lleol i'r plant yn ystod gwyliau'r haf. Trefnwyd y cyfarfod yng Ngwesty'r Grosvenor drwy garedigrwyd y perchenogion Mr a Mrs Cousins, ond siomedig iawn, iawn ydoedd yr ymateb. Y teimlad cyffredinol y noson hon ydoedd y dylid creu diddordeb ymysg y plant er mwyn iddynt gyd-fwynhau teithiau cerdded, nofio, gemau ar lan y llyn, helfa drysor, picnic, chwaraeon difyr, ac amryw diddordebau, a'r cyfan dan reolaeth a gwyliadwriaeth cyson rhai o'r rheini.

Gwneir apêl daer unwaith eto. Os oes rhieni'n awyddus o gael eu plant i ymuno â'r grŵp chwarae yma - disgwylir iddynt roddi gwybodaeth i Mr a Mrs Cousins, Gwesty'r Grosvenor, neu i Mrs Menna Baylis neu Mrs Catherine Lloyd Williams rhag blaen.

Parhad ar dudalen 16.


Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Mehefin 4, gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Croesawodd Mrs Griffith, Bryn Eilian a Mrs Turner Collfryn fel ymwelwyr i'r cyfarfod a dywedodd fod y noson goffi tuag at Ymchwil i'r Cancr wedi bod yn llwyddiant. Darllenodd ei hadroddiad o Bwyllgor y gwanwyn a gynhaliwyd ym Mhwlheli yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Alwynne Jones, sef mab y llywydd ar ei ddyweddïad, ac ar ennill tystysgrif Uwch Beirianydd.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gyda sleidiau lliwgar ar ei hymwelïad i'r Kashmir gan Mrs Eileen Jackson. Diolchodd Mrs Missen iddi. Rhoddwyd y blodau ar fwrdd y llywydd gan Mrs Morfa Evans ac enillodd Mrs Parry Williams y raffl a roddwyd gan Mrs Overy.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 2, yn Neuadd yr Eglwys pan fydd Mrs Ann Nouth yn rhoi arddangosfa o drefnu blodau.

MERCHED Y WAWR – Nos lau, Mai 28, cafwyd noson hynod o ddiffr yn Neuadd yr Eglwys, dan lywyddiaeth Mrs Mary V. Jones, yn arddangos a thrafod ein gwahanol ddiddordebau. Llwyddodd y cyntaf i berfformio, Luned Roberts, i dynnu dŵr o ddannedd pawb, drwy gyfrwng ei dawn artistig yn dangos inni sut i addurno gwahanol fathau o gacennau. Chwarae teg iddi am foddhau ein blys ar y diwedd drwy adael inni flasur cacennau bendigedig.

Ecstasi hollol wahanol a gafwyd gan Miss Bessie Jones. Tywysodd ni i fyddodd dieithr ac aruthr y sêr a'r planedau, gan godi awydd arnom i ddod i wybod mwy am y bydysawd.

Dangosodd Mrs Gweneirys Jones arddangosfa wych o waith llaw – lluniau, addurniadau ac ornamentau – y cwbl wedi eu gwneud gyda deunydd crai o flodau wedi eu sychu. Hefyd dangoswyd dau liain o frodwaith penigamp, y naill wedi ei wneud gan Mrs Hughes, Llys Meredydd, a'r llall gan Mrs Hughes, Gwastad Faes. Diolchwyd iddynt oll gan Iris Owen, ac awgrymodd fod digon o dalentau ymysg ein haelodau ein hunain i gynnal cyfarfodydd y gangen.

Gwnaethpwyd y te gan Glenys Williams, Brenda Jones a Nellie Williams. Enillwyd y raffl, a roddwyd gan Mrs Miles, gan Bet Hughes.

CLWB CANT – Dyma ganlyniadau

Clwb Cant Plaid Cymru am fis Mai: 1. T.J. Griffiths, Tyn yr Onnen, 2. Dic Jones, Llwyn Onn, 3. W.J. Owen, Noddfa.

LLONGYFARCHIADAU – I Alwynne Jones, Bryn Gwenallt, ar ennill tystysgrif Uwch Beirianwr (Môr) ym Mholitechnig, Lerpwl. Ar hyn o bryd mae'n swyddog gyda chwmni Panocean Anco Ltd. Llongyfarchiadau hefyd ar ei ddyweddïad â Miss Helen Thomas o Cesarea.

Ilan Wyn Williams, 18 Bro Waun, ar ei ddrychafiad yn rheolwr cynorthwyol Tesco, Norris Green, Lerpwl.

I Linda Jones, Crud yr Awel, ar ei phenodiad fel Pennaeth Adran Gwyddor Tŷ yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes.

YMDDEOLIAD – Pob lwc a hapusrwydd i Mr C. Chadwick, Tan y Coed, ar ei ymddeoliad ddiwrnod ola'r mis hwn. Bu Mr Chadwick yno er yr adrefnu ym 1974 yn Swyddog Cynllunio'r Sir, ac mae wedi treulio hir oes yn gweithio i'r Llywodraeth Leol.

Ers wythnos bellach mae un fu'n barod ei gymwynas i bob un ohonom wedi ymddeol. Bu Huw Parry, yn gynnar o gwmpas y pentref ar Wyl a Gwaith am ddeuddeng mlynedd yn cario poteli llefrith i'n tai. Diolch yn fawr iddo.

Os hoffech gyfrannu tuag at rodd iddo, mae loda yn gyfrifol, Coed Gwydryn, am fod yn gyfrifol – hyd ddiwedd Gorffennaf.

CYDYMDEIMLWN – Â Mr M.H. Williams, Arfon House, a'r teulu i gyd ar golli mam.

Hefyd â theulu'r diweddar Mr a Mrs J.H. Jones, y Garn, y ddau a fu farw yn ystod y mis diwethaf.

Gobeithiwn bod Mr Eric Jones, Tref Eilian, a Jason Anderson, Bodafon, yn gwella ar ôl eu damweiniau.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion cynhesaf at Gareth Griffith, 11 Bryn Golau, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Eryri. Bydd angen triniaeth ychwanegol arno ymhén 3 wythnos.

Ein cofion hefyd at Mrs Doris Roberts, Dwynnos, a dymuniadau gorau iddi am wellhad buan.

Da yw clywed bod Mr John Griffiths, Darwayne, yn gwella yn araf, ond mae'n dal yn yr ysbyty o hyd.

NEWYDDION O'R YSGOL – Yn dilyn

cwrs hyfforddiant nofio ym Mangor, enillodd y plant fedalau nofio fel a ganlyn: 400 medr, Joanna Marston; 200 medr, Corrine Ackers; 50 medr, Huw Ynry Jones; 20 medr, Llion Iwan; 10 medr, Dylan Pierce, Nan Wyn Jones, Steven Eldridge, Simon Roberts, Nicholas Small, Garym Jackson, Euros Wyn, Iwan Ellis, Gwyn Thomas a Wayne Owen.

NOFIO – Daeth Cadeirydd Rheolwyr yr ysgol, Mr Dafydd Iwan, i gyflwyno'r tystysgrifau i'r nofwyr llwyddiannus yn yr ysgol fore Llun, Mehefin 29. Wrth eu llongyfarch, dywedodd Dafydd mor bwysig oedd dysgu nofio'n ifanc, ac edrychai ymlaen at weld mwy o gyfleusterau nofio a chwaraeon yn y cylch, yn hytrach na chanoli popeth ym Mangor.

Yn yr Ymgynghwr Gwerthu Llyfrau Cymraeg, gwerthodd Llion Iwan 82 o lyfrau, gwerth £154.82; Gareth Griffith 39 o lyfrau, gwerth £58.40; Iwan Ellis 39 o lyfrau, gwerth £45.44 a Jason Anderson 8 o lyfrau gwerth £14.25. Cyfanswm felly o 168 o lyfrau, gwerth £272.91. Llongyfarchiadau i'r pedwar bachgen a diolch i bawb a'u cefnogodd.

Bu trip yr ysgol ddydd Gwener, Mehefin 19. Aethpwyd mewn bws i Borthmadog. Yna ar y trê bach i Flaenau Ffestiniog. Ymlaen wedyn mewn bws i chwarae y Llechwedd lle y cafwyd taith i lawr yr inclên i grombil y ddaear. O Llechwedd aethpwyd ymlaen drwy Ddolwyddelan, Betws y Coed, Llanrwst ac i Barc yr Eirias, Bae Colwyn. Mwynhawyd y trip yn fawr gan y plant.

Yn ystod y mis daeth Cwmni Bara Caws i'r ysgol i roi perfformiad o'r 'Bwbach Blêr' i blant y dosbarthiadau babanod. Yr oedd y plant bach wrth eu bodd yn gwrandao ar y cwmni dawnus yma.

Drwg yw cofnodi fod un o blant yr ysgol, sef Gareth Griffith, safon iv, yn yr ysbty wedi cael triniaeth lawfeddygol. Dymuna'r plant a'r athrawon adferiad llwyr a buan iawn iddo.

OEDFA'R BORE – Bwriedir darlledu Oedfa'r Bore ar Radio Cymru o Gapel y Methodistiaid Calfinaidd, yn ystod mis Awst, a recordir y rhaglen ar gyfer y darllediad am 7pm, nos Sul, Gorffennaf 12.

Bydd yr oedfa yn un o'r rhai neilltuoel a ddarlledir yn ystod Blwyddyn yr Anabl, gyda sylw a chyfeiriad arbennig yn y gwasanaeth at y rhai dan anfantais meddyliol.

Yn ystod y gwasanaeth cymerir rhan gan Gôr Ysgol y Waunfawr, Plant Ysgol Pendalar ac unigolion o Gartref Frondeg. Rhoddir anerchiad gan Mr R. Gwynn Davies, Cadeirydd Cymdeithas Caernarfon a'r cylch dros rai a nam meddwl. Arweinir y canu yn yr oedfa gan Mr Haydn Jones, ac mae'n ddiddorol cofio mai ei dad, Mr G. Gwyrfaï Jones oedd arweinydd y gân pan ddarlledwyd gwasanaeth ar y radio o Gapel y Waun ym 1939.

Byddai cyfeillion y Waunfawr yn ddiolchgar am bob help i chwyddo'r gynulleidfa yn y gwasanaeth arbennig yma.

NOSON GOFFI – Gwneir ymdrech arbennig yn yr ardal yn flynyddol i gasglu arian at Gymdeithas Caernarfon a'r cylch dros rai a nam meddwl, ac ar nos Wener, Mehefin 5, cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus anghyffredin. Gwnaed elw o dros £350.

Dymuna swyddogion ac aelodau'r Gymdeithas ddiolch o galon i drigolion y Waunfawr am eu haelioni. Derbyniwyd nwyddau ac arian oddi wrth lu o bobl ac mae'r arddangosiad blynyddol hwn o deimladau da yn galonogol ryfeddol. Eleni, daeth yn fwy amlwg nag erioed fod y diddordeb yn yr achos yn lledaenu, a ddai cyfeillion heb fod â chysylltiad teuluol â rhai a nam

meddwl oedd mwyafri trefnwyr y noson. Llwyddodd Mrs Pat Parry, Fridd Felan i sicrhau cydweithrediad pobl o gylch eang, ac mae gan y Gymdeithas ddyled fawr iddi am ei gwaith cyson dros rai dan anfantais meddyliol.

YR YSGOL FEITHRIN – Cafwyd wythnos dda iawn eleni i ddathlu'r Wyl Feithrin. Ar y dydd Mawrth cafwyd Bore Agored yn yr ysgol ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am ddod, ac am y rhoddion. Ar y dydd Mercher aeth y plant a rhai o'r mamau i Gaernarfon i weld Cwmni Bara Caws yn perfformio, ac i orffen yr wythnos 'roedd yna bicnic mawr yn Ysgol Segontium ar y dydd Sadwrn i holl ysgolion meithrin Arfon, lle 'roedd Cefin Roberts o Ffalaball yno i ddiddori'r plant.

TRIP YR YSGOL FEITHRIN – Ar Gorffennaf 9 fe fydd trip yr Ysgol Feithrin yn mynd i Lanberis er mwyn i'r plant gael mynd ar drên bach y Llun ac os bydd y tywydd yn ffafriol maent am gael picnic ar ochr y llyn.

PLAID CYMRU – Ar nos Wener, Mehefin 9, cynhaliwyd Taith Feicio noddedig o'r Waunfawr i Landwrog, y Foryd a Chaernarfon i godi arian tuag at gostau'r etholiad sirol. Daeth beicwyr ynghyd o'r Waunfawr, y Bontnewydd a Rhostryfan, a llwyddwyd i godi cyfanswm o £228. (Cododd Raymond Jarvis a Michael Williams £100 rhyngddynt).

Gorffennwyd y noson yn y Llety, Caeathro, a chynhaliwyd Ffug-Eisteddfod hwyliog rhwng y byrddau o dan arweiniad Dafydd Iwan. Ar ddiwedd noson lwyddiannus iawn, diolchodd Eurig Wyn i bawb a fu'n gweithio dros y Blaid yn ystod yr etholiad, ac edrychai ymlaen yn hyderus i'r etholiadau nesaf.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn dewis cynigion ar gyfer Cynhadledd Genedlaethol y Blaid ym mis Hydref. **CRONFA'R GANOLFAN** – O NERTH I NERTH – Mae'r pwyllgor yn reit ffyddiog y byddant yn gwneud £1,000 a throsodd allan o daith bws a lori Mr Humphrey Roberts i Lundain ar Orffennaf 18. Mae croeso i bawb o'r pentre ddod i lawr i'r Maes yng Nghaernarfon am 6.40pm ar Nos Wener, Gorffennaf 17, i ffarwelio a dymuno'n dda i'r criw cyn iddynt adael am Lundain, a hynny yng ngwydd y camerâu teledu.

Diolchir hefyd i Alan Denton am gerdded dros gopaon Eryri i godi arian ar gyfer y Ganolfan.

Dosbarthwyd taflen y Ganolfan i'r cartrefi ynghynt na'r disgwyl er mwyn codi brwdfrydedd ynglŷn â'r daith i Lundain. Bydd y pwyllgor yn trefnu i ymweld yn bersonol â phob tŷ yn weddol fuan, i wahodd pawb i ymuno â'r Clwb 300. Cafodd y gronfa gyfraniad o £50 yn ddiweddar gan fyfyrwyr Undeb Cymraeg Coleg y Brifysgol Bangor, fel rhan o elw eu hwythnos rag.

COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU, BANGOR Adran Efrydiau Allanol

Cwrs ymarferol ar AGWEDDAU LLAFAR AR HANES LLEOL

Mae'r Adran Allanol yn cyd-drefnu efo Amgueddfa Werin Sain Ffagan gwrs ymarferol i hyfforddi pobl sydd â diddordeb mewn casglu a chofnodi hanes a thraddodiadau llafar.

Bydd sesiynau ymarferol yn recordio unigolion yn y maes yn ogystal â darlithoedd a chylchoedd trafod.

Cynhelir y cwrs yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, o Orffennaf 23-25ain. Cost Dysgu: £12.00, a bydd cyfleusterau i aros a/neu gael prydau bwyd, os dymunir am bris rhesymol.

Manylion pellach a ffurflen gais oddi wrth:

**Yr Ysgrifennydd,
Adran Efrydiau Allanol,
Coleg Prifysgol Gogledd Cymru,
Bangor. (Ffôn: 51151/Estyniaç 404)**

**Wavell
Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI
Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**

ENGLYNION TALCEN SLIP 1866

Efallai na chlywsoch erioed o'r blaen sôn am Englyn talcen slip, ac y cewch gymorth i chwerthin!

Yn ddiweddar deuthum ar draws hanes cystadleuaeth gwneud Englyn Talcen Slip ym Mhensarn Amlwch, mewn eisteddfod ym 1866.

Llew Llwyfo oedd y beirniad.

Byddai gwneud englyn talcen slip yn boblogaidd dros gan mlynedd yn ôl. Barn rhai ydyw, fod gwneud englyn talcen slip da yn fwy anodd na gwneud englyn arall.

Paham na cheir cystadleuaeth gwneud englyn talcen slip heddiw? Pwy sy'n barod i egluro?

A yw'r dasg rhy anodd tybed? Efallai fod gan rhai o ddarlennwyr 'Eco'r Wyddfa' wybodaeth ar beth yw amodau englyn talcen slip ac os gwyddoch am englyn efallai yr anfonwch gopi ohono i'w gyhoeddi. Neu efallai y gall rhywun wneud englyn talcen slip a'i anfon yma.

Ymgeisiodd llawer iawn yn y Gystadleuaeth ym Mhensarn. Y mae hynny yn profi mor boblogaidd ydoedd.

Mae'n debyg fod Llew Llwyfo wedi rhoi beirniadaeth ddoniol ar y llwyfan ond yr unig feirniadaeth ar bapur oedd y gair 'Best' wedi ei nodi ar un o'r englynion.

Mewn hen Bapur Pawb Tachwedd 1, 1901 o'r Herald y dois i ar draws hanes y Gystadleuaeth. Sylwch ar y Ffug-enwau!

Dyma rai o'r englynion:

NAIN YN NYDDU

Mewn casgen a mi'n cysgu - yn nhy nhaid

O!! sŵn wna'i'n byddaru:
Y fath darandwrf ni fu,
Nain addien oedd yn nyddu.
(Ffugenw: Os gwelwch yn dda Syr)

Y TRÊN

Tyrfog hyll fygog fwgan, rhyw denyn
Yn rhedeg fel melltan
Yw'r trê, bytwr tân,
Ond 'does gyno fo ddim cariad.
(Merch Ddifai)

Y TRÊN (eto)

Tynu trwy y tanl - a wna'r trê,
A tryfa fel Belial:
Chwai rhed drwy'r brynau uchaf,
I fryson ras hefo'i fwg.
(March Ddofwr)

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

CARU A PHRIODI

Angyles o lodes, gwir ledi, - oedd Mari,

Tarawodd fy ffansi:
Ond och fyth, ar ôl priodi,
Haws gan hon fy nharo i.
(Edifeiriol)

Y MARCH

Y march sy'n greadur suful, - nid ydyw

Fel llawer ceffyl:
Mae'n dduwiol iawn ar y Sul,
A chwim o ddim fel mul.
(Bardd Cocos)

Y FFERIAID

Gwaeddi mae y Gwyddel - am ddyfod

Yma i ddifa'n ddirgel:
Ond gwae i'w ben os byth y dêl
Yn agos i Cadi yma.
(Nid y fi)

Y MUL

Y mul, un drwg ydi o - tanbaid,
Ac enbyd am gicio:

I rywle buan 'relo,
I ben ei daith buan y do.
(Cenferd Bardd Berw)

LLAWER MEWN YCHYDIG

Castell, ystafell, dwy ystol, - cusan,

Merch, caseg, ac ebol:
A phwdin reis, a phedol,
Wnaiff ddyn yn rhol.
(Llywarch Hen)

HANDY

Neithiwr ni bu'm annoethach - na gwyllo

Mewn galar, un afiach:
Ond yn awr, mae Handy'n iach -
Daeth a chwn bach.
(Bardd Cocos)

LLEW LLWYFO

Dwy bedol a dau Badi - dau bydew,

A dwy badell olchi:
Dau leidr a dwy ladi:
A Llew Llwyfo - Hwre!
(Harfydd)

Y BWGAN

Y bwgan a gadd ei bigo - 'narw iawn

Yng Nghymru a'i goncro:
Minnau pan glywais waeddais Ho Ho
Ho Ho Ho Ho Ho Ho.
(Delta M.)

CRINOLIN (Best)

Prydferthwch ar harddwch hogen - yw cylch

O'i hamgylch o gansen:
Neu hoop o stell mewn pais wen,
Nes bydd hi fel cyrnen datw.
Monydd

Gwelwch mai yr olaf ddaeth yn gyntaf!



Mrs Williams yn derbyn cloc fel rhodd gan 'Yr Herald Gymraeg' i gydnabod 50 mlynedd o gyfrannu cyson. Dyma englyn gan y prifardd Gwilym R. Jones iddi:

Mesurydd ei hamserau - a gafodd
I gofio'i herthyglau:
Llawenydd roes i'n llannau
Ym mhapur 'y bur hoff bau.'
Gwilym R. Jones
(Prifardd)

I NODI'CH DIGWYDDIADAU

Annwyl Syr,
Ysgrifennaf i ofyn cymorth eich darllennwyr eleni eto gyda'n cynlluniau i gyhoeddi Digwyddiadur ar gyfer 1982.

'Roedd croeso mawr i Ddigwyddiadur 1981 a gyhoeddwyd y llynedd a phenderfynwyd fynd ati yn flynyddol o hyn ymlaen i barato'r Dyddiadur poded hwylys yma ar gyfer bobl Cymru.

Felly, gofynnwn ichi ddanfôn atom ddyddiadau unrhyw weithgareddau yr ydych yn eu trefnu ar gyfer 1982 ac fe gynhwysir y manylion yn rhad ac am ddim yn y Digwyddiadur. Boed yn Eisteddfodau, yn Sioeau, yn Chwaraeon, yn Wyliau, yn Raliau, yn Gyrsiau yn Gynhadleddau ac yn y blaen bydd lle yn y Digwyddiadur ar eich cyfer.

Yn ogystal, os oes cywiriad i gyfeiriad a ymddangosodd yn y Digwyddiadur y llynedd, neu os oes gennych Bapur Bro newydd, Cymdeithas neu Fudiad newydd yr hoffech inni nodi eleni, cofiwch gysylltu â ni.

Pe gellir danfon y manylion atom erbyn Gorffennaf 13 bydd modd inni gadw at ein bwriad o gyhoeddi'r Digwyddiadur erbyn Eisteddfod Maldwyn.

Gan ddiolch ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir iawn,
D.Philip Davies,
(Rheolwr Marchnata)

Y Lolfa,
Tanybont,
Ceredigion.

Y Ffordd RHWNG LLANRUG, CRAWIA A BETHEL

gan y Cynghorydd Pat Larsen

Gofynnwyd i mi gan etholwr o Lanrug yn ystod etholiad Cyngor Sir Gwynedd am y ffordd rhwng Llanrug a Bethel. Fel mae'n hysbys i bawb sy'n teithio ar hyd y ffordd hon, mae hi'n droellog gyda mannau cul.

Yn ôl fy addewid holais am gynlluniau sydd ar y gweill. Amgaeaf yr ateb a gefais.

Os oes gwelliant i fod ar y ffordd beryglus hon mae'n ofynnol i ni fel cymdeithas atgoffa'r Awdurdod o bryd i'w gilydd o'i addewidion rhag i'r bwriad gael ei ohirio.

Dyma gopi o lythyr a dderbyniodd Mrs Larsen oddi wrth Mr H.E. Davies, Syrfeur y Sir ynglŷn â'r ffordd.

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig Mai 11eg yn cyfeirio at y ffordd uchod. Mae cynlluniau ar y gweill i wneud nifer o fân welliannau ar y ffordd hon ac rydwyf eisoes wedi gofyn i Brisiwr y Sir brynu tir rhwng Hyfrydle a'r Ysgol Uwchradd yn Llanrug. Rhwng Pont Crawia a Chapel Cysegr y bwriad yw gwneud gwelliannau ar y troadau gwaethaf i godi safon y gweledd. Y gobaith ar hyn o bryd yw dechrau'r gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, sef 1982-83.

NEWYDD NEWYDD!!!

HWYL A JOIO
Ieuan Rhys ★ £1.25
Jôcs, posau, cwisiau, cartŵnau, gêmâu, ffeithiau ac oriau ac oriau o hwyl a joio!

CYMRU'N DEFFRO

gol. John Davies £2.25
Stori hanner canrif cyntaf Plaid Cymru; 8 o gyfranwyr; llawn lluniau. Hanfodol i'r cenedlaetholwr!

Bwrw Hiraeth

Dafydd Parri £1.45
Deg stori gafaelgar gan awdur Y Llewod am Gariad a'i gyfrin ffyrdd...

PRISON LETTERS

John Jenkins £1.95
Llythyrau o garchar, deifiol eu harddull, chwyldroadol eu neges.

ATYNIADAU ANHYGOEL I DDILYN AT Y STEDDVOD...

ABC A GWEN / Elwyn Ioan a Tegwyn Jones
LLYFR BACH CYNNAS / Gorwel Roberts
GAIR AM AIR / Gêm newydd Heini Gruffudd
DIGWYDDIADUR 1982
GWELD A SGORIO / Cyfres newydd sbon o 10 llyfr "I-Spy" Cymraeg gan Catrin Stevens
... ac wrth gwrs...
LOL - y rhifyn mwyaf uffernol eto!

Rhestr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau yn ein catalog 32-tud., -rhad ac am ddim gyda throed y post.

Y LOLF A Cyl., Talybont, CEREDIGION
SY24 5HE; ffôn Talybont (097086) 304.

Y Lolfa

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

Y Lolfa
CYMRU'R CAMERA
Golygydd / MARIAN DELYTH

GWAHODDIR FFOTOGRAFFWYR

I DDANFON EU LLUNIAU
I'W HYSTYRIED AR GYFER
Y GYFROL WREIDDOL HON
A FYDD YN BORTREAD O
GYMRU HEDDIW.

Ffurflenni cais a manylion pellach
i'w cael gan eich llyfrwrthwr lleol
neu yn uniongyrchol oddi wrth
Y LOLF A
Talybont, Ceredigion SY24 5HE.

CWM-Y-GLO

DIOLCH - Dymuna Dilys a Dafydd Jones, 4 Brynhyfryd ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y cardiau a'r danteithion a dderbyniodd y ddau tra yn yr ysbyty ac ar ôl iddynt ddod gartref.

CLWB POBL Y CWM - Dydd Sul Mehefin 21 cafodd Clwb Pobl y Cwm wibdaith bleserus iawn trwy garedigrwydd Clwb y Snowdon Breakers. Cawsant fynd dros y bont newydd i Fôn, trwy Llangejni, Amlwch ac yn i Benllech a chael seibiant bach yno. Yna ymlaen i Fiwmares a chael te ardderchog wedi ei drefnu ym Mwyty'r Cottage. Carem ddiolch yn arbennig i Mr a Mrs Geraint Pritchard, Bryn Difyr am eu hanwyldeb a'u gofal drosom i gyd yn ystod y daith.

MERCHED Y WAWR - Mewn pwyllgor a gynhaliwyd i ddiweddu'r tymor ail etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf: Llywydd, Miss Mat Pritchard, B.A., Rhosbodrual, Is-lywydd, Mrs Gwyneth Chick, Tan y Bryn, Ysgrifennydd, Mrs Iris Rowlands, Trysorydd, Mrs Margaret Williams, Nant Forgan. Dosbarth Y Wawr, Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, Gohebydd i'r Wasg, Miss Olwen P. Jones, Gwylfa.

Penderfynwyd hefyd fod holl aelodau'r gangen i weithredu ar y pwyllgor.

Nos Fercher Mai 20 cynhaliwyd noson goffi gyda stondinau Moes a Phryn yn y Ganolfan Gymdeithasol.

Gwnaed elw sylweddol a threfnwyd gwibdaith eleni eto gyda'r arian, i'r pensynwyr.

Dyma restr o enillwyr y raffl: Bocs nwyddau, Mrs K. Owen, Isfryn; Dol, Delyth Glyn Protective Clothing; Bocs siocled, Dilys Ann Jones, Meillionen; Cacennau, Mrs Morris, Becws a Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed. Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed ddyfalodd ym mha le roedd y bêl. Mrs Verna Jones, M.Sc., Meillionen roddodd rif cywir y pys mewn potel.

Manteisiwn ar y cyfle hwn i ddiolch i'r pentrefwyr am eu haelioni arferol; ac i'r gwŷr a'r gwragedd fu mor barod gyda'u cymwynasau.

Ar Fehefin 20 a'r tywydd yn garedig mwynhaodd y pensynwyr awyr iach Llandudno am rai oriau cyn cychwyn adref trwy ddyffryn Conwy gan aros am ryw orig fer ym Metws-y-coed.

Yna ymlaen trwy Ddyffryn Mybyr a bwlch Llanberis.

Tystiodd pawb iddynt fwynhau eu hunain yn ardderchog.

NOSON GOFFI - Nos Lun, Mehefin 8, cynhaliwyd Noson Goffi yn y Ganolfan gyda'r elw tuag at Glwb Pêl-droed y pentref. Enillwyr y raffl oedd: Basged o fwyd: Mr Wager,

Llythyrdy, Brynrefail. Cyw lâr: Cathy Owen, Bronydd, Rhiwlas. Basged ffrwythau: Elwyn Evans, Pant Buarth, Brynrefail. Potel win: Gwyneth Stockwell, Garddfon, Y Felinheli. Potel Sheri: Mrs P. Rowlands, Tal Afon, Cwm y Glo. Bocs Siocled: Cecil Jones, d/o. Manweb. Tun Bisged: Robin Jones, Ty'n Twll, Brynrefail. 6 o wydrau: Mrs E. Hughes, 17 Dolafon, Cwm y Glo. Potel chwsgi: Mrs G. Chick, Tan y Bryn, Cwm y Glo. Dyddiad geni y ddoli: Mrs D. Roberts, Argraig, Cwm y Glo. Faint o arian yn y botel? Mrs A. Morris, Becws, Cwm y Glo. Rhif y deisen: Paula Evans, Llanrug.

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu diolch i bawb a fu'n cefnogi'r Clwb Pêl-droed mewn unrhyw fodd.

LLONGYFARCHION - I Mr Gwilym Williams, Bryn, Cwm y Glo, ar ddiwedd tymor llwyddiannus fel rheolwr tîm pêl-droed Llanberis. Dyma restr eu henillion am y tymor 1980-81: Tarian Marconi, Pencampwriaeth y Gynghrair, Cwpan Alves, Cwpan Moorings.

Fe ddaeth pencampwriaeth Cynghrair Gwryfai, Dosbarth 2, i dîm Cwm y Glo, o dan ofalaeth Gwilym, ac y mae'r hogiau i gyd yn manteisio ar y cyfle i ddiolch iddo am ei ddiddordeb ynddynt.

CLWB POBOL Y CWM - Daeth tymor llewyrchus y clwb i ben, gyda phleserdaith i ymweld â marchnad agored Llangejni. Er mai diwrnod hanfodol i ambarel oedd, daeth egwyl yn y prynhawn i dreulio rhyw awr ymysg yr amrywiaeth o gelfi a nwyddau ar werth.

Yna, ymlaen i Biwmares, lle cafwyd lluniaeth cyn cychwyn yn ôl.

Er gwaethaf y tywydd anffarfiol, roedd pawb yn eu hwyliu gorau.

Estynnir gwahoddiad i unrhyw un a dymuna ymaelodi â'r clwb sydd yn ailgychwyn ym mis Medi.

GYRFA CHWIST

Ar nos Wener, Mehefin 19 yng Nghlwb Eryri, Penisarwaun, cynhaliwyd gyrfa chwist at achos *Action Research for the Crippled Child*. Fe godwyd dros £30 at yr achos ac fe hoffai bwyllgor Cwm y Glo ddatgan eu diolch i bawb am eu cyfraniad ac yn arbennig felly i Glwb Eryri.

Dyma ganlyniadau yr yrfa: 1. Mrs M. Evans, Llanberis; 2. Mrs B. Morgan, Bethel; 3. Mrs E. Price, Cwm y Glo; 4. Mrs B. Roberts, Llanberis.

Ac yn y raffl: 1. Mrs A. Hughes; 2. Linda Thomas, Penisarwaun; 3. Mrs B. Morgan, Bethel.

LLANBERIS (Parhad)



PRIODAS - Ar ddydd Sadwrn Mai 23 priodwyd Eurgain, merch hynaf Mr a Mrs Gwynfor Williams, Bryn Derw, Stryd Newton a Mr Michael John Owen, mab Mrs Maglonia Owen a'r diweddar Mr Edward Owen, Gilfach-y-Gôg, Llanegryn, Meirionnydd, yn Eglwys Gorffwysfa M.C. Llanberis. Bydd y pâr ifanc yn

ymgartrefu yn Nhywyn, Meirionnydd.

DIOLCH - Dymuna Mrs Eurgain Owen ddiolch yn gynnes i'w theulu, ffrindiau a phobl Llanberis a'r cylch am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag ati ar achlysur ei phriodas.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL - Cafwyd casgliad llywddiannus iawn yn yr ardal eleni at Gymorth Cristnogol. Aelodau o wahanol Eglwysy oedd y casglyddion.

Cyfanswm y casgliad o dŷ i dŷ £210.78; Gyrfa Chwist (gan aelodau Amblwllwll St. Ioan) £20.05. Casgliad yn y Gwasanaeth Cyd-enwadol yn Eglwys St Padarn, £8.53. Cyfanswm y casgliadau £239.36.

Dymuna Miss C. Gillespie, y Trefnydd Lleol, ddiolch i'r Casglyddion am eu llafur ac i drigolion yr ardal am eu haelioni. Diolch arbennig hefyd i Reolwr a Staff Banc y Midland am eu gwaith mawr yn cyfri'r arian.

O GARNIFAL LLANRUG



TAN-Y-COED

BEDYDD - Pnawn Sul, Mehefin 7 yn ei gartref bedyddiwyd Steven Prys Williams, mab bychan Mr a Mrs William John Williams, Pryscol. Y Parch W.O. Roberts oedd yn gwasanaethu. Ein dymuniadau gorau i Steven.

CROESO ADRE - o Ysbyty Môn ac Arfon i Linda Wynne Jones, Pant Clyd. Cipiwyd Linda yn sydyn i'r ysbyty i gael triniaeth lawfeddygol. Erbyn hyn mae Linda'n gwella'n foddhaol. Parhaed i wella.

GWASANAETH - Yng Nghapel Tan-y-coed bnawn Sul Mehefin 21 cafwyd gwasanaeth arbennig i'r plant o dan ofal y gweinidog y Parch W.O. Roberts.

Yn ystod y gwasanaeth gwobrwywyd y plant fu'n llwyddiannus yn Arholiadau'r Cyfundeb - yr Arholiad Sirol, yr

Arholiad Ysgrifenedig a'r Arholiad Llafar.

Derbyniodd Catherine Evans, Preswylfa Dystysgrif am ei llwyddiant yn Adran dDros Ddeunaw Oed o'r Arholiad Llafar. Camolwyd Mrs Evans am ei gweithgarwch a'i llwyddiant yn yr arholiad hon o flwyddyn i flwyddyn, a hynny er gwaethaf gwendid a llesgedd.

Miss Enid Roberts, Minafon oedd yr organyddes, a Mrs Catherine Vaughan Jones, 6 Maesgerddi oedd yn cynorthwyo gyda'r gwaith o wobrwyo'r plant.

Y CARNIFAL - Gwelwyd oedolion a phlant o'r ardal yn cyfrannu'n helaeth tuag at lwyddiant y Carnifal pnawn Sadwrn Mehefin 20.

Diolch iddynt a llongyfarchiadau i'r rheiny enillodd wobrau yn y gwahanol gystadlaethau.




**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

PENISARWAUN

EGLWYS ST HELEN – Cafwyd cyfarfod Undeb y Mamau nos Lun, Mehefin 1. Y wraig wadd oedd Mrs Ruth Charles o Rosgadfan a rhoddodd ychydig o'i hanes fel darllenwraig leyg. Fe dalodd Mrs Mowll deyrnged i'r ddiweddar Mrs S. Roberts (Ship). Llongyfarchwyd Alwyn a Meirwen Williams yn wneud yn dda yn y Mabolgampau yn yr ysgol. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Pritchard, Pen-Sarn.

CYDYMDEIMLWN – Â theulu Bryn Howel yn eu profedigaeth o golli tad, Mr W.A. Rowlands. 'Roedd ef yn aelod ffyddlon o Eglwys St Helen. Hefyd yr ydym yn cydymdeimlo gyda Mrs B. Evans, Glyn Arthur, ar farwolaeth ei phriod, Mr D.A. Evans.

LLONGYFARCHWN – Blant yr Ysgol Sul ar eu llwyddiant yn y Gymanfa. Nia a Louise (o dan 5), Andrea a Sioned (o dan 6), Amanda ac Yvonne (o dan 6-8), Berwyn (o dan 10).

SEFYDLIAD Y MERCHED – Mrs Katie Jones, y Waunfawr, oedd y wraig wadd ar nos Fawrth, Mehefin 2. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Jones a Mrs B. Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs B. Hughes. Nos Fawrth, Mehefin 23, cafwyd noson o Foes a Phryn, a rhoddwyd y te gan Mrs E. Porter a Mrs K. Williams, Llys-y-gwynt. Enillodd Mrs P. Williams y raffl. Bydd y trip blynyddol yn mynd i Landudno ar Orffennaf 11. Diolchwyd i Mrs G. Lewis a Mrs K. Williams am ofalu am y trefnu.

LLONGYFARCHWN – Miss Anwen Jones, BA, Meillionydd, Miss Bronwen Hughes BSc, Brython, a Mr Cai Larsen BA, Llygad yr Haul ar eu llwyddiant yn eu harholiadau gradd. Hwyl fawr iddynt yn y dyfodol. A hefyd i Bronwen yn un ar hugain oed. Llongyfarchiadau hefyd i Bryn Williams, Tan y Gaer sydd wedi ychwanegu gradd BD at ei radd BA. Mae Mrs Maggie Thomas, Bod Awen yn hen nain am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau i Allan a Brenda ar enedigaeth mab bach; ac i Mr a Mrs M. Jones, Perthi ar enedigaeth mab bach (Siôn).

CYDYMDEIMLWN – Â Mrs Avril Williams, Careb, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

DIOLCH – Dymuna Bronwen R. Hughes ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. Diolch yn fawr.

DYMUNWN YN DDA – I Sandra a Keith Jones, 2 Bryntirion ar eu priodas.

DYMUNWN WELLHAD BUAN – I Mrs G. Williams, Trem Cynfi, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Cafodd Emyr Williams, Glyn Euron, ddamwain i'w droed ond da yw ei weld o gwmpas eto.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr Robert Turner, Tyddyn Difyr, am ennill cystadleuaeth yng Nghnada am gyfansoddi cerddi.

YSGOL TAN Y COED

NEIDWYR – Bu pymtheg o'r plant yn cynrychioli'r Ysgol ym Mabolgampau'r Urdd, Cylch Arfon yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar.

Y cystadleuwyr mwyaf llwyddiannus oedd Angharad Crew (2il) a Michael Wroe (cydradd 2il) yn eu cystadlaethau Naid Hir.

GWIBDEITHIAU – Gofalu am eu rheini o gwmpas Sŵ Bae Colwyn oedd gorchwyl plant Dosbarth y Babanod yn ddiweddar. Cawsant ddiweddu'r prynhawn ym Mharc Eirias.

Cafodd plant yr Adran Iau 'egwyl ryw brynhawn' i fynd i olwg Ynys Enlli. Yna troi'n ôl am Eifionydd, lle na chafodd y Lôn Goed 'lonydd gorffenedig' o gwbl dan draed hanner cant o blant.

Wedyn ymwelwyd ag Amgueddfa Lloyd George ger Afon Dwyfor, cyn diweddu yng Nghricieth, lle gwariwyd yr arian oedd wedi bod yn llosgi yn y pocedi ers naw o'r gloch y bore.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Mae Pwyllgor lleol y Gymdeithas yn trefnu Barbeciw i'w gynnal yng Nghnolfan Dinorwig, am 6.30pm, nos Wener, Gorffennaf 17. Pwrpas y Barbeciw fydd hyrwyddo'r cysylltiad sefydlwyd y llynedd rhwng Eglwys i'r Adran drwy'r Daith Gerdded-Encil Ddistaw.

Peidied neb a disgwyl saig o gig eidion yn y Barbeciw, cynigir tamaid o gig mochyn ar ffurf *Sausage Roll* yn unig a phaned i'w olchi i lawr! Os na'ch digonnir ar hynny, byddwch yn sicr o'ch bodloni ar yr adloniant ysgafn gyfrennir gan ddoniau lleol yn ystod y noson. Er cyfarfod y costau gofynnir i blant dalu mynediad 15c ac oedolion 25c.

Cofiwch y dyddiad, ac os am noson hwyliog, rhowch eich enw i Ysgrifennydd eich Eglwys.

NODIADAU NATUR gan Leslie Larsen. PARC GWLEDIG PADARN

Nid oes amheuaeth mai tywydd gwael a gawsom yn ystod mis Mai a hanner Mehefin; bu'n glawio bron bob dydd ac ni welwyd ond ambell i lygedyn o haul yn ystod y saith wythnos. Nid oedd yr holl law yn ddrwg i gyd canys yn ei sgil deiliodd yr onnen tua phythefnos yn gynt nag arfer ac yr oedd rhedyn yn llewyrchus iawn. Yr oedd hyn yn amlwg iawn ym Mharc Gwledig Padarn.

Saif y pacr hwn ar ochr Lland-deiniolen o Lyn Padarn ac heb os y mae'n lle hynod o ddiddorol gyda thua phump o rodfeydd o gwmpas Chwarel Vivian a thrwy'r goedwig fach hynafol o dderw yn bennaf.

Euthum yno a cherdded ar hyd y llwybr sy'n igam ogamu ar ochr chwith Chwarel Vivian ac ar hyd y llwybr natur yno. Wrth reswm yr amlycaf o'r coed oedd y dderwen ond o chwilio yr oedd y coed hyn i'w gweld: Bedwen, Onnen, Criafolen, Masarnen, Celynnen, Helygen, Gwernen, Collen, Llwyfen, Ffawydden, Ysgawn, Draenen Wen a Draenen Ddu; hefyd llwyni bach o eithin, Rhosyn Gwyllt, Mwyar, Eidew yn tagu coed, a gwyddfid persawrus yn troelli o gwmpas bonion coed.

Y mae'r coed hyn i gyd yn rhai cynhenid i'r fro ond y mae estroniaid wedi ymgartrefu yma; y ddau amlwg yw'r rhododendron a'r cotoneaster sydd fel cwrldd ar greigiau a muriau. Bûm yn chwilio'n ddyfal am un goeden yn arbennig sef yr aethnen (Aspen yn Saesneg) ond yn ofer mae gen' i ofn. Dydy'r goeden hon ddim yn anodd i'w hadnabod gan fod y dail

yn symud neu'n crynu'n ddibaid o fore gwyn tan nos, hyd yn oed pan nad oes chwa o wynt.

Rhoddaf yr enw Cymraeg arall am y goeden hon yn betrusgar ac ofnus; enw disgrifiadol ydyw sef Coed Tafod Merched.

Y creadur mwyaf estronol yma yw'r Wiwer Las (neu lwyd). Pan oeddwn i yno yr oedd y dieithryn hwn yn ei lordio hi ym mrigiau'r dderwen heb ddangos unrhyw edifeirwch am ddisodli'r wiwer goch o'i chartref. Ond hen stori bellach yw hon yng nghefn gwlad Cymru. Tra 'roedd y Wiwer Lwyd yn haerllug o gwmpas y lle yr oedd Sgrech y Coed yn ceisio cyfiawnhau ei henw drwy wrthwynebu fy mheresenoldeb gyda'i llais cras.

Bob tro y byddaf ym Mharc Padarn bydd "caridym" T.H. Parry-Williams yn "rhegi a rhwygo ym mrigau'r coed". Brain yw'r rhain ac mae ef yn eu galw nhw hefyd yn "Hen adar castiog cableddus croch" ac fel yr ystyriodd ef frain ardal Rhyd Ddu ystyriais i'r brain hyn heb fod fawr callach pam yr holl ffræo ymhlith ei gilydd. Cerddais atynt ym mhen uchaf y Parc ond erbyn i mi eu cyrraedd aethant i ffwrdd i ran arall o'r coed a mynd ymlaen â'r helynt.

Hoffwn eich annog i fynd i Barc Padarn am dro; mi fyddwch wrth eich bodd. Yno fe welwch y morgrug yn ddiwyd a phrysur yn union fel oedd eu hynafiaid filoedd o flynyddoedd yn ôl. Ewch yno i wyllo'r adar; i weld blodau coed (yr oedd 52 o rai gwahanol yno ym mis Mai). Peidiwch a gadael y Parc i ddieithriaid fel y mae'r wiwer goch wedi gadael y lle i'r wiwer lwyd.

'CYMORTH' Rhaglen newydd ar H.T.V. Cymru

Ydych chi'n teimlo'n unig ac yn ddi-obaith? Ydych chi'n cael trafferth i ddygymod â'ch cred a'ch safonau moesol? A beth am y plant – ydyn nhw'n achosi pryder i chi? A oes rhywun yn eich gofal, a'r baich hwnnw'n drwm? Neu efallai eich bod chi, fel y rhan fwyaf ohonom ni, yn methu deall y gyfraith nac yn gwybod yn gwybod yn union beth yw eich hawliau dinesig.

Ganol mis Gorffennaf bydd cyfres newydd yn dechrau ar HTV Cymru ar b'nawn Sul, cyfres a fydd yn ymdrin ag anawsterau a phroblemau personol, cyffredin ac anghyffredin dan y teitl 'Cymorth'.

Yn y stiwdio bydd arbenigwyr yn eu priod feysydd sydd yn barod i roi cymorth neu roi'r rhai hynny sydd am gyngor a chymorth ar ben y ffordd.

Ac ar gyfer y gyfres hon mae'r cynhyrchydd am wahodd y gwylywyr i anfon llythyrau ato ar unrhyw bwnc neu brofiad sydd yn eu poeni. Bydd cyfle i ymddangos yn y rhaglen er mwyn trafod y broblem, os hoffai unrhyw un wneud hynny.

Er nad yw'r gyfres 'Cymorth' yn dechrau am rai wythnosau, mae cryn drefnu i'w wneud ymlaen llaw, ac felly hoffai'r cynhyrchydd dderbyn llythyrau – wedi eu harwyddo neu yn ddi-enw – cyn gynted ag sydd bosib.

Y cyfeiriad yw 'Cymorth', HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Yr Wyddgrug, Clwyd CH7 1YA.



Tŷ newydd Prifathro Ysgol Tan-y-Coed? Nage wir! Plant Penisarwaun a welir yn y llun yn ystod ymweliad â Bryn Celli Ddu, Ynys Môn. 'Roedd yr ymweliad yn rhan o waith y plant ar 'Fannau Arbennig'.

Y CARNIFAL – Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco ymddangos bydd wythnos y Carnifal bron iawn ar ben gyda dim ond y Carnifal nos 'fory (nos Wener) ar ôl. Mae'r pwyllgor yn awyddus iawn i ddatgan eu diolchiadau i bawb sydd wedi helpu tuag at lwyddiant y gweithgareddau mewn unrhyw ffordd o gwbl.

YR YSGOL FEITHRIN – Nid yw'r Ysgol Feithrin wedi cyfarfod yn ddiweddar

oherwydd y gwaith sydd yn cael ei wneud yn y neuadd, ond bu rhai o'r plantos a'u mamau yn yr Aelwyd yng Nghaernarfon yn mwynhau perfformiad gan Gwmni Theatr Bara Caws. Gobeithir ail-gydio yn y gwaith o gynnal yr ysgol eto ym mis Medi ac mae croeso i unrhyw fam, nain, neu fodryb ddod â phlant bach newydd i ymuno yn y chwarae. Cysylltwch â Nant Roberts, Jean Roberts, Myfi Jones neu Mary Elliott.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

PLU'R GWEUNYDD

gan John Ellis Williams, Allt Riwth, Pontrhythallt
(Hefyd drwy ganiatâd Mrs Ina Jones, Bod Ifor, Llanrug)



DARLUN yw hwn o fuarth y Gors, Llanddeiniolen, yn fuan ar ôl troad y ganrif. Ynddo, o'r chwith, mae fy nain Anne Jane Williams, Jini Preis o Lanbabo, y forwyn fach, fy modryb Phoebe, ac Ifan Hughes ei gŵr, (rhieni Mrs Ina Jones, Bod Ifor). Yn y goits, Glyn ei brawd, ac yn y fflôt lefrith, Joss ac Ellis ei brodyr eraill, ynghyd â Now bach Canada, mab fy modryb Harriet, a oedd yn cael ei fagu gyda'i nain. Ar y dde, fy nhad Joseph Williams, ac yn y cefn, y gweision.

Ty'n y Gors oedd enw'r lle yn yr hen amser. Roedd y murddyn yno ymhen draw'r buarth. Mae'r tŷ presennol a welir yn y darlun, a adeiladwyd gan fy nhaid, Ellis Williams, yn tynnu bellach am ei gan mlwydd.

Mesur ar draws can acer oedd hi, o fawndir du, a chwarter y rheiny yn dir â, ond yn frac, ac addas i dyfu tatws a grawn. Roedd y gweddill yn gorsdir tonnenog, yn llawn migwyn, a chwrlid, lafrwyn, a phlu'r gweunydd.

Erbyn fy amser i yn y dau a'r tri degau, doedd fawr newid wedi bod yn y dulliau. Roedd y pren rhaffau, a'r manjiar a'r delyn a'r corddwr, a'r noe, yr og biga, a'r cambran yn dal mewn grym, a'r trymwaith yn cael ei wneud gan yr olwyn ddŵr a'r cefylau.

Roedd yna enwau ar y caeau yr adeg honno. Weriglodd Bifan, lle roedd yna ddarn gwndwn a rhos, a maen mawr yn ei chanol lle byddai'r gwartheg yn cosi, a chaffaeliad i raffu ebolion a'u dysgu i rensio. Tu draw iddi roedd Cors Tan Rardd; mynwent anifeiliaid. Roedd yr hen bobol wedi bod yn cloddio yno hefyd am danwydd, ac yr oedd y tyllau rheiny yn llenwi hefo dŵr gan adael ynysoedd bach yn y canol lle byddai'r hwyaid gwylltion yn nythu. Yn y fan honno mae yna arian daear hefyd; dau biseraid o sofrenni aur dan gladd ers tuag amser fy hen daid a nain, Morgan a Phoebe Williams. Mae nhw wedi symud erbyn hyn fel mae popeth yn y mawn.

Roedd yna dwll yn y Gors Fawr hefyd lle bydden ni'n sglefrio yn y gaeaf ac ar nosweithia' mawr byddai'r cŵn dŵr yn dod i fyny'r ffosydd mawn ar ôl yr ieith a'r gwyddau.

Roedd yna weirglodd wrth y tŷ o'r enw y Bonc Bach, lle roedd y ffynnon wedi ei chloddio fel ogof dan godiad tir. Roedd yna ddraenen wen fawr wedi ei gosod yn ei hymyl i gadw gwres yr haul oddi ar y dŵr.

Tu draw, roedd yna lain o'r enw Clwt Gaseg a Chyw, lle byddai'r cesig a'r cywion yn cael eu hymneilltuo ddechra'r haf oddi wrth yr anifeiliaid eraill i gael cyfle iawn i fagu. Pan

oedd yr haul yn isel, nos a bore, roedd yna olion cefna gwenith i'w gweld yn y fan honno ers amser y degwm.

Yn gyfochrog roedd weirglodd Tŷ Hen - lle da i godi sgwarnog. Roedd yna afon fach glir yn rhedeg trwyddi a honno byth yn sychu yn yr haf poetha am fod yna ddŵr codi ar ei chwrs. Ar ei glan, yn Weriglodd Pant, roedd murddyn Tŷ Hen, a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn houwal drolia gan fy nhaid. Roedd yno fwgan hefyd yn ysgwyd y carw-denni ganol nos.

Ar yr ochr ddwyreiniol ar y terfyn roedd yna boncan eithin, Ponc yr Ynys Wen. Byddai yn cael ei thanio yn dymhorol er wryn cael poethwel i ffaglu o dan y popty i grasu bara. Rhwng y ddau le roedd yna lôn fach gul wedi ei gwalio yn uchel. Ar hyd honno roedd y trolia yn symud rhwng Dinorwig a'r Felinheli. Ei henw oedd Lôn Clechydd.

Roedd yna dri cae arall ar derfyn â Beudy Sion Dywyll; Bryndu Bach, a Mawr, a Bryndu Twll, a thu ôl i'r beudai roedd Cae lloia, lle byddai'r lloia bach yn cael eu troi allan y y gwanwyn ar ôl bod ym mllwch y beudy drwy'r gaea. Roeddent mor hurt ar ôl dod i'r golau, nes yr oedd angen eu cadw ar dennyn am awr neu ddwy rhag iddynt ruthro ar eu penau i'r waliau ac andwyo eu hunain.

Roedd yna deirw drwg yno hefyd bob amser, am fod yna, meddai rhai - garreg ateb yng nghefn y tŷ gwair. Ac yr oedd yn rhaid llyffetheirio a mygydu rhai ohonynt. Roedd fy ewythr Ellis - a aeth yn gaucho i'r Ariannin, ac yn ddiweddarach i ffarmio defaid i New South Wales, ac a laddwyd hefo'r Awstraliaid ar y Somme yn 'Hangard Woods' - roedd o yn dod heibio i'r Cyfar Main ar y Gors Ucha a ryw orchwyl a chryman yn ei law, pan ddaeth y tarw o rywle a throi arno. Taflodd y cryman a'i daro yn ei egwd nes torri cymal ar ei ar, a syrthiodd i lawr fel tarw Sbaen. Clywais fy nhad yn dweud fel y darfu fy nhaid wedyn ei ladd wrth olwyn y drol.

Mae yna lwybrau difyr yn mynd ar

draws y corsydd lle byddai cariadon yn crwydro fraich ym mraich a dwsinau o drigolion y bröydd yn mynd ar Sul y Blodau hefod bwnsieidiau o Gennij Pedr tros y Cae Cam i lawr i Laniolan. Mae yna un arall yn mynd ar draws i lôn y Rhydau heibio i'r Gamfa Bum Munud lle byddai aml un yn eistedd ar noson falmaidd o haf yn dal pen

rheswm, neu naddu ffyn yr un fath â Thomas Owen, Tŷ Newydd, a'i fwstas wedi ei waccio yn ddau bigyn fel RSM.

"Gwrandda," fyddai o'n ddweud gan bwnio ffyrall ei ffon i fogal rhywun, "mae gin i stori fach i ddeud wrthaf ti..."

Mae gen innau aml i un hefyd i'w dweud am y darn yna o'r ddaear.

GWLEDD NOSON O GÂN

Heb os, un o nosweithiau mwyaf llwyddiannus Calendr gweithgareddau'r fro ers tro bellach yw'r Noson o Gân a gynhelir yng Nghapel Coch Llanberis fel cylchwl wythnos Carnifal Llanberis. Cafwyd nosweithiau i'w cofio yn y gorffennol.

Disgwyllir noson fawr eto eleni yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Nantlle a Rosalind a Myrddin. Bydd naws lleol i'r noson eleni. Bydd eitemau gan blant y fro a fu'n llwyddianus yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Teifi. Bydd cyfle i glywed Parti Cerdd Dant a Pharti Unsain Ysgol Dolbadarn. Fe gofiwch iddynt ennill y ddwy gystadleuaeth yma eleni. Bydd côr yr ysgol yn canu hefyd. Bydd cyfle i glywed Rhian Owen yn canu ynghyd â'r grŵp y mae'n aelod ohono sefl 'Gwlith'. Cipiasant Dlws Hofia'r Wyddfa yng nghystadleuaeth y gân Werin Fodern.

Arweinydd y gân fydd Meirion Jones, arweinydd Côr Meibion y Brythoniaid. Fe gofiwch mai Meirion Jones oedd arweinydd Cymanfa Ganu Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Yr

organydd fel arfer fydd Mr Hugh Peris Pritchard.

CARNIFAL LLANBERIS 1981

Ni fydd y Pwyllgor Carnifal yn mynd o ddrws i ddrws i gasglu anrhegion tuag at y rafflau a'r gwobrau basgedi bwyd ac yn y blaen.

Os oes rhywun eisiau cyfrannu yna a fuasech mor garedig a'i danfon i'r cyfeiriadau canlynol dim hwyrach na Gorffennaf 12, fel y gallwn wedyn benderfynu beth sydd angen ei brynu fel gwobrau:

Mrs Dilys Phillips, Siop Wlân, 38 Stryd Fawr, Llanberis, a Mr Ken Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis.

AR WERTH

Beic ras 3 gêr i ddyn.
Beic ras 14 gêr i rhywun dros 15 oed.
Ffrâm 21". Cyflwr da.
Y m h o l i a d a u :
Portdinorwig 670861

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

DYDDIADUR

GORFFENNAF

Mercher, 1. **PENISARWAUN:** Chwaraeon Pêl-droed a Rownderi. Iau, 2. **BETHEL:** Yr Ysgol Feithrin – trip ar drên bach Llyn Padarn. **DEINIOLLEN:** Yr Ysgol Feithrin – trip i Wersyll Butlins, Pwllheli. **WAUNFAWR:** Sefydliad y Merched – Arddangosfa Trefnu Blodau. Gwener, 3. **LLANBERIS:** Te yr Henoed. **PENISARWAUN:** Carnifal a Mabolgampau. Sadwrn, 4. **PENISARWAUN:** Gwibdaith yr Ysgol Sul i'r Rhyl. **LLANBERIS:** Gwibdaith yr Ysgolion Sul i'r Rhyl. **BETHEL:** Gwibdaith Ysgol Sul Capel Bethel i Southport. Sul, 5. **DEINIOLLEN:** Cyngerdd Crefyddol. Llun, 6. **DEINIOLLEN:** Gemau Pêl-droed 5 bob ochr. Sefydliad y Merched – Arddangosfa gan B.A. Mix. Mawrth, 7. **DEINIOLLEN:** Disgo'r Carnifal. Mercher, 8. **DEINIOLLEN:** Cyngerdd a Seremoni Coroni Brenhines y Carnifal. Iau, 9. **DEINIOLLEN:** Mabolgampau. **LLANRUG:** Helfa Drysor Clwb y Mamau. Gwibdaith Clwb Blodau'r Grug. **WAUNFAWR:** Yr Ysgol Feithrin – Trip ar drên bach Llyn Padarn. Gwener, 10. **DEINIOLLEN:** Ffilmiau a Chystadlaethau Dartiau. **YR ARDAL:** Yr ysgolion yn cau am Wyliau'r Haf. Sadwrn, 11. **WAUNFAWR:** Carnifal. **DEINIOLLEN:** Carnifal. **BETHEL:** Noson o Ddisgo a Chyw lâr ym Mron Eryri, Llanberis. Y noson dan nawdd Pwyllgor y Carnifal. **NANT PERIS:** Gwibdaith Ysgol Sul Capel Rehoboth i'r Rhyl. **PENISARWAUN:** Sefydliad y Merched – Gwibdaith i Landudno. Sul, 12. **LLANBERIS:** 'Noson o Gân' yng Nghapel Coch. **WAUNFAWR:** Recordio 'Oedfa'r Bore'. Llun, 13. **LLANBERIS:** Gyrfa Chwist y

Carnifal yn y Ganolfan am 7.30. Mawrth, 14. **LLANBERIS:** Mabolgampau'r Carnifal yn Ddôl y Goeden. **BETHEL:** Clwb Bro Bethel yn Festri Capel Bethel – Sgwrs gan y Parchedig R.E. Hughes, Nefyn. Mercher, 15. **LLANBERIS:** Rowndiau Terfynol dartiau. Disgo'r Plant yn y Ganolfan. Iau, 16. **LLANBERIS:** Gemau Giamocs. **DEINIOLLEN:** Clwb Elidir – Gwibdaith i Landudno. Gwener, 17. **LLANBERIS:** Te yr Henoed. Bingo'r Carnifal, Dinorwig, Brynrefail, Deiniolen a Phenisarwaun: Pwyllgor Lleol Cymdeithas y Beiblau yn cynnal Barbeciw yng Nghanolfan Dinorwig am 6.30. Sadwrn, 18. **LLANBERIS:** Carnifal. **WAUNFAWR:** Taith Noddedig ar Fws Dwbl Decari i Lundain. Yr elw er budd Cronfa'r Ganolfan. **DINORWIG:** Gwibdaith Ddirgel y Gymdeithas Undebol Lenyddol. Iau, 23. **LLANBERIS:** Sefydliad y Merched. Gwener, 31. **LLANBERIS:** Te yr Henoed.

GORFFENNAF 6 – Awst 14: Arddangosfa David Lloyd George dan nawdd Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Oriel Eryri.

DYDDIADAU I'W COFI

Awst 15: Carnifal Brynrefail
Awst 22: Carnifal Cwm y Glo.

EISTEDDFOD GADEIRIOL

Y GROESLON

EBRILL 2 a 3

1982

Manylion gan:

K.W. Jones, Bron Aber, Y
Groeslon

GWAITH CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

Y mis hwn, mae Cymdeithas Tai Gwynedd yn gosod eu tŷ cyntaf yn Neiniolen i bâr ifanc o'r pentre. Mae'r Gymdeithas wedi ehangu'r tŷ, sef 8 Tai Gweledfa, a gosod cegin newydd yn y cefn. Mae'r ystafelloedd wedi eu hail-drefnu a'u haddurno, a gosodwyd gwres canolog hefyd yn y tŷ.

"Mae'r tŷ hwn yn arbennig iawn yn ein golwg fel Cymdeithas" meddai'r Trefnydd, Dafydd Iwan, wrth yr Eco, "oherwydd bu unwaith yn gartref i'r diweddar H.R. Jones, un o arloeswyr y mudiad cenedlaethol ac Ysgrifennydd cyntaf Plaid Cymru". I nodi hynny, gosodir llechfaen ar flaen y tŷ a chynhelir cyfarfod byr ar brynghawn Gwener, Gorffennaf 24, am 4.00 o'r gloch, pryd y ceir anerchiad gan yr Aelod Seneddol, Dafydd Wigley. Os bydd ei hiechyd yn caniatáu, Miss Eleanor Jones, 3 Tai Marian, Deiniolen, chwaer y diweddar H.R. Jones, fydd yn dadorchuddio'r maen.

Mae Cymdeithas Tai Gwynedd, sy'n dibynnu ar arian a fuddsoddir gan y cyhoedd, a'i chwaer-gymdeithas Tai Eryri, sy'n derbyn ei harian oddi wrth y Gorfforaeth Letya, yn gobeithio adnewyddu rhagor o dai ym mro Eco'r Wyddfa cyn bo hir. Ar hyn o bryd, maent wrthi ar dai yn Nantlle, Talysarn a Bontnewydd. "Roedd yn amlwg", meddai Dafydd Iwan, "gan gymaint o geisiadau a gafwyd am y tŷ hwn, fod galw mawr am dai ar rent yn yr ardal. Ac y mae'r sefyllfa'n siŵr o waethygu wedi i'r Llywodraeth gwtogi cymaint ar bres y Cyngor Dosbarth, sy'n golygu y bydd Tai Cyngor yn brinnach fyth yn y

dyfodol."

Wrth ddewis tenantiaid i'r tŷ, rhoddodd y Gymdeithas flaenoriaeth i ddau sydd a'u gwreiddiau'n ddwfn yn naear Deiniolen, a dau sy'n aelodau ffyddlon o seindorf y pentre. Dymunwn yn dda i Ieuan a Nia ar eu priodas yr haf yma, ac ar eu bywyd yn eu cartref newydd.

Mae Cymdeithas Tai Gwynedd yn dymuno diolch i bawb a gyfrannodd at y Gronfa a'i helpodd i brynu ac adnewyddu 8, Tai Gweledfa, ac yn gwahodd rhagor i fuddsoddi arian ynddi, fel y gall ddyblu ei gwaith yn yr ardal. Telir llog o 9% ar hyn o bryd, a cheir y manylion llawn gan y Trefnydd yn Swyddfa'r Gymdeithas, Penygroes, Caernarfon. (Penygroes 730).



ANGHOFIWCH SIAPAN – AM Y METRO

A LLAWER MWY, O STABAL HELAETH BRITISH LEYLAND . . .

GAREJ MINFFORDD BETHEL

(T.R. & S. EVANS)

Ffôn: Y Felinheli

670451



COFIWCH: 'RYDYM HEFYD YN GWERTHU ROVER a TRIUMPH RŴAN

Agorir y Carnifal gan
Dai Jones a Rosalind
(Siôn a Siân HTV)